

Y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)

Rhan 2 – Canllawiau ar ddewis cwestiynau

DOGFENNAU SQuID

Mae hon yn un o'r tair dogfen sy'n disgrifio'r SQuID.

Rhan 1 – Cyflwyniad

Rhan 2 – Canllawiau ar ddewis cwestiynau

Rhan 3 – Catalog cwestiynau

TABL CYNNWYS

A - DERBYNIOLDEB Y CYFLENWR	3
B - STATWS ECONOMAIDD / ARIANNOL	5
C - CYMHWYSTER A GALLU.....	18
D - RHEOLAETH	18
E - CYFLE CYFARTAL.....	33
F - CYNALIADWYEDD	35
G - IECHYD A DIOGELWCH	35
ATODIAD 1.....	41

A – DERBYNIOLDEB Y CYFLENWR

Rheoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Mae Rheoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn pennu'r meini prawf ar gyfer gwrthod gweithredwyr economaidd. Yn amodol ar yr eithriadau a ddisgrifir isod ac a nodir yn Rheoliad 57 (6-7) a (13-17), **rhaid** i'r prynwr beidio â dewis gweithredwr economaidd os oes gwybodaeth wirioneddol gan yr awdurdod contractio fod y gweithredwr economaidd neu ei gyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall sydd â phwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli mewn perthynas â'r gweithredwr economaidd wedi'i gael yn euog o gyflawni un o'r troseddau sydd wedi'u rhestru yn Rheoliad 57 (1-7), sef y 'seiliau gorfodol'. Felly, dylid cynnwys cwestiwn SA.GEN.01 ym mhob holiadur dethol ar gyfer ymarferiadau caffael y mae Rheoliad 57 yn gymwys iddynt. Fodd bynnag, mae'r eithriadau gorfodol hyn yn destun prawf cymesured (Rheoliad 57 (6-7)) a dylai ystyried unrhyw fesurau a gymerir gan gyflenwyr i hunanlanhau (Rheoliad 57(13-17)).

Caiff y prynwr benderfynu peidio â dewis gweithredwr economaidd ar un neu ragor o'r seiliau sydd wedi'u nodi yn Rheoliad 57(8), sef y 'seiliau disgresiynol'. Mae cwestiwn SA.GEN.02 yn ymwneud â'r seiliau disgresiynol dros ddiystyru gweithredwr economaidd sydd yn y Rheoliadau a gellir cynnwys y cwestiwn hwn mewn unrhyw holiadur dethol ar gyfer ymarferiadau caffael y mae Rheoliad 57 yn gymwys iddynt.

Mae rhai o'r seiliau disgresiynol hyn yn faterion sy'n ymwneud â'r ymarfer caffael dan sylw, er enghraifft cyfranogiad blaenorol y cyflenwr yn y prosiect. Mae eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr ymchwilio i'r amgylchiadau cyn penderfynu diystyru cyflenwr. Felly, mae geiriad newydd cwestiwn SQuID SA.GEN.02 yn gofyn i gyflenwyr a ydynt am drafod unrhyw fater dan sylw gyda'r prynwr, ac mae'n egluro y gallai'r seiliau hyn beri i gyflenwr gael ei ddiystyru o'r ymarfer caffael unrhyw bryd os dânt i'r amlwg.

Os nad yw Rheoliad 57 yn gymwys i'r ymarfer caffael, bydd angen i'r prynwr benderfynu pa feini prawf i'w cymhwyso, gan gofio'r gofynion cyffredinol i drin pob gweithredwr economaidd yn gyfartal ac yn anwahaniaethol, ac i weithredu mewn ffordd dryloyw. Felly caiff y prynwr gynnwys cwestiynau SA.GEN.01 a SA.GEN.02 hyd yn oed os nad yw hynny'n orfodol o dan y rheoliadau, ar yr amod bod cyfiawnhad dros eu cynnwys.

Gwrthdaro buddiannau

Fel arfer, mae'n briodol gofyn cwestiwn fel SA.GEN.03 er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau (neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau) o ganlyniad i berthnasod rhwng pobl sy'n gweithio ar ran y cynigydd a swyddogion y prynwr. Rhaid peidio â defnyddio hyn yn gyfiawnhad dros anghymhwyso cynigydd (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol), gan fod modd delio â gwrthdaro buddiannau fel arfer drwy gymryd mesurau priodol. ***SYLWER:** ni ellir storio'r ateb i'r cwestiwn hwn mewn cronfa ddata i'w aildefnyddio, gan y bydd ymateb y cynigydd yn dibynnu ar bwy yw'r prynwr, a pha aelodau staff sy'n gysylltiedig â'r ymarfer caffael.*

Cosbrestru

Mae SA.GEN04 yn gwestiwn newydd sy'n ymwneud â'r arfer o gosbrestru yn y diwydiant adeiladu, a fyddai'n cael ei gynnwys o fewn y categori camymddwyn difrifol (meini prawf diystyru disgresiynol). Fel gyda'r holl feini prawf diystyru disgresiynol, bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw gam i ddiystyru yn gymesur ac wedi ystyried unrhyw dystiolaeth a ddarperir gan y cyflenwr ei fod wedi "hunanlanhau". Ceir rhagor o fanylion yn y Nodyn Cyngor Polisi Caffael:

<http://prp.wales.gov.uk/docs/prp/toolkit/130910blacklistingpanfinal.doc>

Treth

Mae SA.GEN05 yn gwestiwn newydd sy'n ymwneud â ffurflenni treth y cynigwyr, ac mae'n gysylltiedig â Rheoliad 57 (3-4).

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer Derbynioldeb y Cyflenwr

Rheoliad 57(1-7) sail orfodol

SA.GEN.01 *Cadarnhau nad yw'r cynigydd i gael ei wrthod am resymau gorfodol sydd wedi'u pennu yn rheoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.*

Rheoliad 57(8) sail ddisgresiynol

SA.GEN.02 *Gofyn a yw'r cynigydd yn dymuno codi unrhyw fater a allai roi sail i'r prynwr ddiystyru am resymau disgresiynol sydd wedi'u pennu yn rheoliad 57 (8) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.*

Gwrthdaro buddiannau

SA.GEN.03 *(ateb na ellir ei storio i'w aildefnyddio) Cadarnhau nad yw unrhyw fath o wrthdaro buddiannau'n effeithio ar y cynnig.*

Cosbrestru

SA.GEN.04 *Gofyn a ganfuwyd bod y cynigydd wedi defnyddio'r arfer o gosbrestru.*

Treth

SA.GEN.05 *Gofyn ynghylch hanes y cynigydd mewn perthynas â'i ffurflenni treth.*

B - STATWS ECONOMAIDD / ARIANNOL

Sut y dylwn holi ynghylch statws economaidd / ariannol?

Nwyddau a gwasanaethau cyffredinol

Bydd rhyw fath o gost neu anhwylostod i'r prynwr bob amser bron os na chaiff nwyddau neu wasanaethau eu cyflenwi o ganlyniad i fethiant ariannol y cyflenwr. Fodd bynnag, bydd tebygolrwydd a graddau (risg) costau ac anhwylostod o'r fath yn amrywio.

Yn aml, bydd y gost i'r prynwr yn uchel. Y rheswm dros hyn yw y bydd angen cynnal ymarfer cystadlu newydd i ddod o hyd i ddarparwr arall, ac mae'n bosibl y bydd angen ymarfer caffael arall er mwyn cael ateb dros dro. Mae'n bosibl y bydd y prynwr yn gorfod talu mwy o lawer am ateb dros dro a gallai wynebu cosbau, anhwylostod neu gostau eraill.

Er hynny, mae'n bosibl y bydd y gost i'r prynwr yn isel – os bydd y prynwr yn gallu dewis cyflenwr gwahanol heb fawr o waith ychwanegol ac os yw'r costau sy'n gysylltiedig â gorfod aros am ateb arall yn isel. Mewn achos o'r fath mae'n bosibl y gellir anwybyddu sefydlogrwydd ariannol wrth ddewis cynigwyr; byddai hyn yn lleihau costau'r ymarfer caffael a gallai agor y gystadleuaeth i gynigwyr na fyddent yn cael cyfle i dyfu eu busnes fel arall. Bydd hyn yn golygu bod y prynwr yn derbyn y risg o fethiant yn yr ymarfer caffael cychwynnol a'r posibilrwydd y bydd yn gorfod ei ailgynnal yn ddiweddarach. Mae enghraifft o hyn wedi'i disgrifio yn y blwch isod.

Mae Cyngor Lleol yn prynu gwasanaethau glanhau ffenestri ar gyfer ei swyddfeydd. Bydd yr ymarfer caffael yn digwydd drwy'r weithdrefn agored drwy ddefnyddio technoleg e-dendro. Mae'r gofynion wedi'u pennu'n fanwl yn y tendr a'r cwbl y bydd angen i gynigwyr ei wneud yw cadarnhau y byddant yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen, eu bod yn bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch a darparu pris. Mae'r Cyngor yn bwriadu dyfarnu'r contract ar sail y tendr isaf ei bris sy'n cadarnhau y bydd y gofynion hyn wedi'u bodloni, ac mae am ddefnyddio contract a fydd yn sicrhau mai dim ond ar ôl cyflawni'r gwasanaeth yn unol â'r fanyleb y bydd taliadau'n cael eu gwneud.

Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn credu mai isel iawn fydd yr anhwylostod a'r gost o ganlyniad i fethiant gan y contractwr i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion. Bydd y ffenestri'n parhau'n fudr nes caiff contract newydd ei osod, ond dim ond ychydig o anhwylostod y bydd hyn yn ei achosi i staff; gellir cynnal ymarfer caffael newydd yn gyflym ac yn effeithlon gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Felly mae'r Cyngor yn penderfynu peidio â holi ynghylch Sefydlogrwydd Ariannol yn ystod ei ymarfer caffael. Os bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i rywun sy'n methu â chwblhau'r gwaith am fod ei fusnes yn mynd i'r wal, ni fydd yn cael ei dalu a bydd y Cyngor yn dileu'r contract ac yn ailgynnal y gystadleuaeth.

Gallai enghreifftiau eraill gynnwys cytundeb fframwaith aml-gyflenwr, lle bydd dewisiadau amgen ar gael yn hawdd pe byddai un cyflenwr yn methu â chyflenwi, neu ymgynghoriaeth unigol lle mae taliad yn ddyledus ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau yn foddhaol.

Er mwyn penderfynu sut i ddelio â sefydlogrwydd ariannol, dylech ystyried y risgiau a fydd yn codi os bydd y contract yn methu. Os ydynt yn isel, gallwch fforddio gwirio yswiriant yn unig, neu gynnal gwiriad *llai manwl*. Os oes risgiau sylweddol, dylech gynnal gwiriad *manwl* o sefydlogrwydd ariannol. Gallwch ddilyn y canllawiau canlynol er mwyn pennu'r risgiau a'r dull i'w fabwysiadu. Mae'n bwysig cofio mai arweiniad yn unig sydd yn y canllawiau hyn: mewn sectorau penodol (e.e. gweler y canllawiau ynghylch adeiladu isod) mae'n bosibl y bydd angen addasu'r dull o weithredu.

Y dull o wneud cais am wybodaeth ariannol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Lluniwyd SQuID fersiwn 3 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r cam Dethol yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus newydd 2015. Mae'r set o gwestiynau a'r canllawiau hefyd wedi cael eu cysoni cymaint â phosibl â'r Holiadur Cyn Gymhwyso a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet, er mwyn cynorthwyo cyflenwyr sy'n cynnig am gontractau yng Nghymru a Lloegr a sefydliadau sy'n prynu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ond nad oes ganddynt swyddogaethau wedi'u datganoli, ac felly sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 4 yn y Rheoliadau (y mae swyddogaethau datganoledig yng Nghymru wedi'u heithrio ohonynt).

Gan fod gwybodaeth ariannol ar ffurf rhifau gan amlaf, dylai fod yn bosibl gosod trothwyon ar gyfer derbynioldeb fel arfer, er enghraifft, ar sail mesur o broffidioldeb, neu drosiant (mae trosiant wedi'i drafod yn yr adran ar Gymhwyster a Gallu). Gall trothwyon clir ar gyfer derbynioldeb fod yn ddefnyddiol iawn i gyflenwyr sy'n ystyried a fyddant yn cynnig neu beidio. Pe byddech yn defnyddio dull sgorio (e.e. neilltuo 10 marc ar gyfer dadansoddiad o gyfrifon y cwmni), heb egluro'r fethodoleg sydd i'w defnyddio, gallai hynny'ch gadael yn agored i her ar sail diffyg tryloywder. Ym mhob achos, rhaid datgan beth yw'r trothwyon neu brofion sydd i'w gosod, fel y bydd y cynigwyr yn gwybod ymlaen llaw beth y mae'n rhaid iddynt ei wneud a sut y bydd eu cynigion yn cael eu hasesu.

Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn nodi bod yn RHAID i brynwyr dderbyn Dogfen Gaffael Unigol Ewropeaidd (ESPD) sy'n cynnwys hunanddatganiad yn cadarnhau nad yw'r cyflenwr mewn sefyllfa i gael ei ddiystyru a'i fod yn bodloni'r meini prawf dewis. Er nad yw'r ESPD wedi'i chymeradwyo eto mae'n amlwg, er mwyn i gyflenwr allu hunanardystio, y dylid sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, nad yw'r meini prawf dethol yn seiliedig ar farn y prynwr. Mae'r cwestiynau SQuID wedi cael eu diwygio er mwyn gofyn i ddarpar gyflenwyr gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y canllawiau i'r cwestiynau, a **bod RHAID iddynt fod mewn sefyllfa i gyflwyno tystiolaeth os bydd angen, i gadarnhau hyn cyn i'r contract gael ei ddyfarnu**. Caiff cwestiynau eu cynnwys hefyd sy'n galluogi cyflenwyr i gyflwyno gwybodaeth ategol os byddant yn dymuno.

Mae Rheoliad 59 (8) yn galluogi prynwyr i geisio dogfennaeth ategol unrhyw bryd os bydd angen, ond byddai angen i'r prynwr allu cyfiawnhau pam roedd hyn yn angenrheidiol ac ni fyddai hunanddatganiad yn ddigonol. At ddibenion y SQuID rydym wedi tybio, os caiff asesiad risg ei gynnal ar sefydlogrwydd ariannol, ac y canfyddir bod y contract yn creu risg uchel, gallai hyn roi'r cyfiawnhad sydd ei angen i geisio dogfennau ategol (e.e. cyfrifon ariannol) ar gam cynharach o'r ymarfer caffael. Dylai prynwyr geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar y pwynt hwn.

Pwyntiau Cyffredinol

Yn olaf, cofiwch dri phwynt pwysig iawn wrth ddefnyddio'r canllawiau:

1. Mae *costau methiant* (neu effeithiau eraill, fel anhwylostod ac effaith ar y cyhoedd) yn wahanol iawn i *werth* y contract: mae'n hawdd meddwl am rai mathau o gontractau isel eu gwerth a allai arwain at gostau ac anhwylostod sylweddol pe byddai'r contractwr yn methu â'u cyflawni, er enghraifft, system TG sy'n hanfodol i fusnes fel e-bost o'r tu allan neu reoli dyddiaduron.
2. Nid yw'r *gwiriad llai manwl* yn ddull cynhwysfawr neu ddi-ffael o bennu a fydd sefydliad yn parhau mewn busnes er mwyn cyflawni'r contract. Yn hytrach, mae'n wiriad syml a chyfyngedig i'w ddefnyddio pan fydd y canlyniadau o fethu'n llai. Er enghraifft, dim ond statws ariannol yr endid sy'n cyflwyno'r cynnig a gaiff ei ystyried – nid yw'n edrych ar sefyllfa unrhyw riant-gwmni.

3. Bydd galwadau sylweddol ar adnoddau ac amser y prynwr os bydd yn cynnal *gwiriad manwl* o sefydlogrwydd ariannol yn ystod yr ymarfer caffael, a bydd hyn yn ei gwneud yn llawer mwy anodd egluro i gynigwyr beth fyddai'n cael ei ystyried yn ymateb derbyniol, felly ceisiwch osgoi defnyddio'r dull hwn dim ond er mwyn "bod yn siŵr".

Cynigion gan gonsortïwm

Bydd heriau penodol yn codi wrth bennu cwestiynau dethol a chymharu ymatebion, os ceir cynigion gan gonsortïwm yn hytrach na chyflenwyr unigol. Mae'n bosibl i gonsortïwm gofrestru'n endid ar wahân a chyflwyno cynnig gan ddefnyddio data ar gyfer y consortïwm cyfan ond, yn yr un modd, gallai aelod arweiniol gyflwyno cynnig gan drin partneriaid eraill fel is-gontractwyr i bob pwrpas. Wrth gyflwyno data ariannol, dylai fod yn bosibl i'r aelod arweiniol roi sicrwydd o sefydlogrwydd ariannol (a throsiant ar y cyd) gan ddefnyddio data sydd wedi'u cyfuno oddi wrth aelodau'r consortïwm. Mae'r cwestiynau wedi'u gosod mewn ffordd a fyddai'n galluogi consortïwm i ymateb drwy roi data cyfatebol ond, os yw'n bosibl neu'n debygol y byddwch yn cael cynnig oddi wrth gonsortïwm, dylech sicrhau bod y cwestiynau wedi'u geirio mewn ffordd ddigon hyblyg, a bod y canllawiau i gynigwyr yn glir.

Mae'n bwysig ystyried y math o gontract yr ydych yn ei hysbysebu, a'r mathau o gonsortia a allai gyflwyno cynnig. Bydd darlun cyffredinol o sefydlogrwydd ariannol yn ddefnyddiol os yw consortïwm wedi'i ffurfio o sefydliadau tebyg sydd wedi dod at ei gilydd i ehangu eu gallu. Fodd bynnag, os yw aelodau'r consortïwm yn cyflawni rolau gwahanol (neu'n cwmpasu ardaloedd daearyddol gwahanol), byddai methiant gan un aelod yn gallu creu mwy o risg i lwyddiant y prosiect. Mewn achos o'r fath, gall fod yn fwy priodol dadansoddi gwybodaeth ariannol oddi wrth aelodau unigol y consortïwm. Mae Llywodraeth Cymru (mewn partneriaeth â Chanolfan Gydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) wedi cyhoeddi Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd. Mae cyngor manwl ym Mhennod 3 ynghylch dadansoddi data ariannol oddi wrth gonsortïwm.

Mae hefyd yn werth nodi bod Partneriaeth (gweler FS.GEN.02) yn ffurf gyfreithiol benodol, ac nad yw yr un peth â chonsortïwm.

Gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Yn y sector adeiladu, bydd y gost a'r anhwylostod o ganlyniad i fethiant gan gyflenwr am resymau ariannol yn dibynnu i raddau helaeth ar natur y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y cyflenwr.

Os yw'r cyflenwr yn darparu gwasanaeth proffesiynol ar ddechrau'r broses adeiladu (dylunio pensaernïol, mecanyddol neu drydanol, tirlfesur etc), mae'n debygol y gellir penodi cyflenwr arall heb wynebu llawer o gost ac anhwylostod ychwanegol. Mae'n debygol y ceir oedi yn y prosiect o ganlyniad i hyn, ond bydd oedi o'r fath yn llai ei effaith na phe byddai'r contractwr yn methu yn ystod y cyfnod adeiladu.

Os bydd contractwr adeiladu'n methu yn ystod y cyfnod adeiladu, mae penodi contractwr arall yn debygol o fod yn anodd a chostus ac, yn ôl pob tebyg, bydd yn anodd i'r prynwr osgoi perchnogaeth ar nifer fawr o risgiau a fyddai wedi parhau'n gyfrifoldeb i'r contractwr gwreiddiol fel arall. Mae'n debygol y ceir oedi hir cyn cwblhau'r prosiect, yn ogystal ag anhwylostod i'r cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd y prynwr yn wynebu costau ychwanegol er mwyn gwarchod safleoedd, cynnal amgylchedd diogel ac atal gwaith sydd ar ei hanner rhag dirywio.

Cofiwch y bydd *asesiad manwl* yn fwy cymhleth, a gall hyn olygu y bydd cwmnïau llai neu ddarparwyr newydd yn ei chael yn fwy anodd cystadlu - felly dim ond os byddai'r canlyniadau o fethiant ariannol y contractwr yn annerbyniol o uchel y dylech ddefnyddio'r dull hwn.

Efallai y bydd y tabl isod yn ddefnyddiol i chi. Bydd yn eich helpu i nodi'r gost i'r prynwr os bydd y chyflenwr yn methu â chyflawni'r contract am resymau ariannol.

Fel arall, fel rheol gyffredinol, gallwch ddefnyddio dull yr *asesiad llai manwl* ar gyfer gwasanaethau proffesiynol:

- Gwaith pensaernïol
- Peirianeg strwythurol
- Dylunio mecanyddol neu drydanol
- Tirfesur

A gallwch ddefnyddio'r *asesiad manwl* ar gyfer:

- Clirio safleoedd
- Adeiladu
- Gosodiadau mecanyddol a thrydanol

Canllawiau ar asesu'r goblygiadau o fethiant contractau

Rydym yn cynnwys y tabl hwn er mwyn cynnig arweiniad yn unig. Mae'n dangos sut i fesur y gost a'r anhwylystod o ddelio â chyflenwr sy'n methu â chyflawni contract.

	Dim = 0	Isel = 1	Canolig = 2	Uchel = 4	Uchel iawn = 8
Cost darparu gwasanaeth/ gallu dros dro yn ei le	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy
<u>Costau caffael</u> sy'n gysylltiedig â phrynu gwasanaeth neu allu arall a/neu dros dro	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy

Yr effaith ar y cyhoedd (yn cynnwys iechyd a diogelwch) a/neu ar enw da'r prynwr os bydd y cyflenwr yn methu â chyflawni'r contract.	Dim effaith allanol.	Effaith fach iawn ar y cyhoedd; dim effaith debygol ar ganfyddiad y cyhoedd.	Rhywfaint o effaith ar y cyhoedd; effaith negyddol fach ar ganfyddiad y cyhoedd.	Effaith ganolog ar y cyhoedd; effaith negyddol ganolog ar ganfyddiad y cyhoedd.	Effaith fawr ar y cyhoedd; effaith negyddol sylweddol ar ganfyddiad y cyhoedd; risg sylweddol i iechyd a diogelwch y cyhoedd.
Cosbau neu gostau uniongyrchol eraill a ddaw i ran y prynwr os bydd y cyflenwr yn methu â chyflawni'r contract	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy

Cyfarwyddiadau

1. Cyfrifwch y pwyntiau ym mhob rhes sy'n cyfateb i'r effaith debygol o ganlyniad i ethiant y contract.
2. Adiwch y pwyntiau a dilynwch y canllawiau isod i bennu'ch dull o wirio sefydlogrwydd ariannol y cynigwyr.
 - 0 - 3** pwynt (effaith o hyd at oddeutu £35k): **gwirio yswiriant yn unig**
 - 4 – 7** pwynt (effaith o tua £35-85k): **gwiriad llai manwl** o'u statws ariannol
 - 8** pwynt neu fwy (effaith o tua £100k neu fwy): **gwiriad manwl** o'u statws ariannol

D.S. Fel y nodwyd uchod, mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw brosiect sy'n gysylltiedig ag adeiladu'n cael ei ystyried yn un risg isel o ran y costau o ganlyniad i fethiant ariannol y cyflenwr.

Gwirio Yswiriant yn Unig

Hyd yn oed os bydd y gost neu anhwylystod o ganlyniad i fethiant y cyflenwr yn fach iawn, mae'n bwysig cynnwys cwestiynau am yr yswiriant sydd gan y cynigydd gan fod hyn yn rhoi sicrwydd i'r prynwr na fydd yn ysgwyddo risg ddiangen. Bydd y mathau penodol o yswiriant sydd eu hangen yn amrywio yn ôl natur yr ymarfer caffael: dilynwch y canllaw isod i benderfynu a fydd angen y mathau hyn o yswiriant.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylech ddisgwyl y bydd eich darpar gyflenwyr wedi trefnu yswiriant a thalu amdano fel amod o gynnig, ond gallwch gadarnhau y bydd cyflenwyr mewn sefyllfa i ddangos bod yswiriant digonol wedi'i drefnu cyn i'r contract gael ei ddyfarnu. Mae'r cwestiwn a osodwyd yn galluogi cyflenwyr i lanlwytho dogfennau yswiriant os byddant yn dymuno.

- *Atebolrwydd Cyhoeddus* – mae hyn yn bwysig os yw'r gwaith sydd i'w wneud gan y cynigydd yn cynnwys risg o anaf i aelodau o'r cyhoedd neu ddifrod i'w heiddo, neu anaf neu ddifrod i drydydd parti arall (e.e. difrod neu lygredd/halogi ar safle cyfagos). Os yw'r contract yn golygu y bydd y contractwr yn bresennol ar safle'r prynwr, dylech fynnu (a sicrhau) bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cynnwys darpariaeth ar gyfer anaf i staff y prynwr a cholled a difrod i eiddo'r prynwr (gan gynnwys adeiladau). Rhaid cofio hefyd, yng nghydestun adeiladu, y bydd yswiriant ar gyfer holl risgiau'r contractwr ("contractor's all risks") (gweler isod) fel arfer ond yn cynnwys y gwaith ei hun a'r man gweithio, nid gweddill y safle neu adeilad nad yw'r contractwr yn cael mynd iddo. Felly mae'n bwysig sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cynnwys unrhyw ddifrod cyfochrog i'r mannau hyn a all ddigwydd, er enghraifft, o ganlyniad i dân yn y man gweithio.
- *Atebolrwydd am Gynnyrch* – mae hyn yn darparu ar gyfer risg o anaf i ddefnyddwyr, neu ddifrod i eiddo, sydd wedi'i hachosi gan gynnyrch diffygiol.
- *Indemnity Proffesiynol* – mae hyn yn angenrheidiol os yw'r contract yn gofyn am arfer medr a barn broffesiynol, neu am roi cyngor dibynadwy, a hynny'n aml yn cynnwys staff cymwysedig. Ymysg yr enghreifftiau o hyn mae gwasanaethau dylunio o wahanol fathau, gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifyddiaeth ac ymgynghoriaeth, gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a rheoli prosiectau. Yn achos TG, ni fyddai prynu eitem barod yn galw am ddarparu yswiriant Indemnity Proffesiynol, ond byddai angen yswiriant o'r fath os byddai elfen sylweddol o ddylunio neu addasu ar y system gan y cyflenwr i gwrdd ag anghenion y prynwr, neu pan fyddwch yn dibynnu ar gyngor y cyflenwr er mwyn cael y cynnyrch priodol.
- *Atebolrwydd Cyflogwyr* – mae hyn yn bwysig bob amser gan ei fod yn sicrhau na fydd y prynwr yn ysgwyddo unrhyw risg os bydd cyflenwr yn methu â bodloni gofyniad cyfreithiol i drefnu'r yswiriant hwn. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i bob cyflogwr (heblaw cyrff y sector cyhoeddus, a busnesau sy'n cyflogi aelodau o'r teulu yn unig ac nad ydynt yn gwmnïau cyfyngedig, ac ychydig o eithriadau bach eraill) drefnu sicrwydd yswiriant o £5,000,000 o leiaf.

- *Holl Risgiau'r Contractwr* – mae hyn yn ymwneud â gwaith adeiladu'n unig. Fel arfer bydd yn cynnwys pob math o golled neu ddifrod i'r gwaith ei hun a'r manau y mae'r contractwr yn eu rheoli, heblaw am rai eithriadau penodol. Mewn egwyddor, os bydd yr eiddo sydd wedi'i yswirio'n cael ei ddifrodi (gan dân neu lifogydd, er enghraifft), yna, ni waeth pwy sydd ar fai, bydd arian yswiriant ar gael i'w adfer. Fel arfer, bydd yswiriant holl risgiau'r contractwr ond yn cael ei drefnu ar gyfer contract penodol wrth ddechrau ar y gwaith neu ychydig cyn hynny. Felly ni fyddwch yn gallu gweld a yw cynigwyr wedi trefnu'r yswiriant hwn ar y cam dethol, ond mae'n bosibl y byddwch am ofyn iddynt ddangos tystiolaeth o'u gallu i sicrhau yswiriant holl risgiau'r contractwr ar gyfer contractau sy'n debyg o ran eu gwerth a'u risg.

Mae'n bwysig sicrhau bod lefel yr yswiriant y gofynnir amdano'n gymesur ag anghenion y prosiect fel na fydd cynigwyr llai'n cael eu cau allan heb fod angen. Rhaid cynnwys y cwestiynau priodol o dan FS.GEN.07 a sicrhau eich bod yn rhoi arweiniad pellach ar lefelau'r yswiriant sydd ei angen. Mewn nifer o achosion, mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol gofyn i'r cynigydd brynu'r yswiriant sydd ei angen dim ond os bydd ei gynnig yn llwyddiannus (a darparu tystiolaeth ei fod yn gallu gwneud hynny, er enghraifft drwy ddangos dyfynbris am yswiriant). Mae cwestiynau eraill wedi'u darparu ar gyfer y senario hwn.

Nid peth syml yw cyfrifo faint o yswiriant sydd ei angen – mae diwydiant mawr yn delio â'r maes hwn yn unig. Wrth gynnal ymarfer caffael, rydym yn argymhell eich bod yn gweithredu ar sail risg mewn ffordd debyg i'r hyn sydd wedi'i ddangos yn y tabl uchod. Fodd bynnag, yn lle ystyried y risg o fethiant ariannol, dylech asesu pa mor debygol yw hi y bydd rhywbeth yn mynd o'i le a beth fydd effaith hynny. Er enghraifft, gallai'r effaith fod yn ddifrifol iawn: byddai cyngor proffesiynol gwael gan bensaer a fyddai'n creu gwendid mewn adeilad yn gallu arwain at oedi a gwaith costus i gywiro'r diffyg (gallai yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Indemnio Proffesiynol fod yn berthnasol i hyn); byddai diffyg mewn cynnyrch gofal iechyd yn gallu achosi risgiau difrifol i gleifion (gallai yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus fod yn berthnasol). Ar y llaw arall, mae'n debygol y byddai risgiau llai o lawer mewn prosiect hyfforddi staff (gallai yswiriant Indemnio Proffesiynol fod yn berthnasol os tybir bod yr hyfforddiant yn anghywir).

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer gwirio yswiriant yn unig

Yswiriant

FS.GEN.06 *Cadarnhau bod gan y cyflenwr yswiriant ar y lefel a nodwyd gan y prynwr cyn i'r contract gael ei ddyfarnu, neu y gall ymrwymo i drefnu'r cyfryw yswiriant. Mae'r cwestiwn hefyd yn galluogi cyflenwyr i lanlwytho tystysgrifau yswiriant os oes ganddynt rai eisoes.*

Gwiriad llai manwl o sefyllfa ariannol

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y dull sy'n cael ei argymhell ar gyfer gwiriad llai manwl yw defnyddio *proffidioldeb* ac *argaeledd asedau tymor byr* i fesur sefydlogrwydd ariannol, er ei bod yn well gan rai o brynwyr y sector cyhoeddus ddefnyddio *cymhareb prawf asid*.

Yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, mae cwestiynau SQuID sy'n cwmpasu'r meysydd hyn bellach yn gofyn i'r cyflenwr gadarnhau eu bod wedi bod yn broffidiol yn y ddwy flynedd ddiwethaf a/neu bod eu cymhareb prawf asid yn uwch na gwerth a nodwyd gan y prynwr. Mae'r cwestiynau'n egluro bod yn rhaid i gynigwyr fod mewn sefyllfa i roi tystiolaeth i ategu eu hymatebion cyn i'r contract gael ei ddyfarnu, a chynnig yr opsiwn iddynt gynnwys data ariannol os byddant yn dymuno.

Gwybodaeth gefndir

Mae'r SQuID yn cynnwys rhai cwestiynau syml sy'n cipio gwybodaeth ddefnyddiol am y sefydliad sy'n cynnig – fel arfer, byddwch yn gweld ei bod yn ddefnyddiol cynnwys cwestiynau FS.GEN.01 - FS.GEN.03.

Beth am ddefnyddio trosiant?

Am nifer o resymau, nid yw *trosiant* yn fesur da o sefydlogrwydd ariannol. I ddechrau, hyd yn oed os oes trosiant da gan gwmni, gall wneud colledion er hynny, a gall hyn arwain at ei fethiant yn y pen draw. Mae hefyd yn anaddas am ei fod yn cosbi busnesau sydd wedi cychwyn yn ddiweddar a chyfryngau at ddibenion arbennig (SPVs) sydd heb drosiant sefydledig ond y gallai fod ganddynt gryfder ar ffurf arian parod a mantolen gadarn. Mae trosiant wedi'i gynnwys yn yr adran ar Gymhwyster a Gallu gan ei fod yn dangos yn gyffredinol fod y cynigydd yn gallu delio â maint y gwaith.

Proffidioldeb ac asedau tymor byr

Mae proffidioldeb, os caiff ei ystyried ar y cyd ag argaeledd asedau tymor byr i dalu am golledion, yn gallu bod yn ffordd syml a defnyddiol o fesur cryfder ariannol. Rhaid bod yn ofalus wrth ei ddefnyddio ar gyfer sefydliadau “di-elw” (e.e. rhai sefydliadau yn y trydydd sector) a chwmnïau sydd wedi buddsoddi symiau ychwanegol yn ddiweddar er mwyn tyfu (oherwydd gall hyn arwain at golled yn y tymor byr wrth fuddsoddi yn y busnes). Gall fod yn anodd defnyddio’r dull hwn hefyd wrth ddelio â grŵp o gwmnïau sy’n defnyddio cytundebau masnachu ar draws sefydliadau i leihau proffidioldeb rhai cwmnïau masnachu am resymau sy’n ymwneud â threth. Hefyd gall fod yn anodd cymharu proffidioldeb consortiwm â phroffidioldeb un sefydliad. Ceir aelodau arweiniol mewn rhai consortia a fydd yn rhoi’r sicrwydd ariannol ar eu pen eu hunain. Mae’n bosibl y bydd eraill wedi trefnu eu hunain yn sefydliad ar wahân er mwyn cyflwyno cynnig, neu’n defnyddio cyfrwng at ddibenion arbennig. Mae’r cwestiynau wedi’u geirio mewn ffordd sy’n galluogi consortiwm i ddarparu asesiad cyfunol o’i broffidioldeb. Ceir rhagor o fanylion ym mhennod 3 o’r Canllaw Ceisiadau ar y Cyd: www.wales.gov.uk/jointbidding

Yr egwyddor sylfaenol yw ei bod yn annhebygol y bydd cwmni’n methu tra bydd yn broffidiol ac felly bod y nwyddau, gwasanaethau neu waith sydd wedi’u contractio’n debygol o gael eu darparu. Nid yw lefel yr elw’n berthnasol iawn, na’r berthynas rhwng lefel yr elw a maint y sefydliad na’i drosiant: yr unig beth pwysig yw bod y sefydliad yn debygol o barhau i fasnachu. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw sefydliad yn gwneud colled, mae’n debygol o barhau i fasnachu a chwblhau’r contract ar yr amod bod adnoddau ganddo i barhau i weithredu ar golled dros gyfnod y contract – dyma pam y mae argaeledd asedau tymor byr yn bwysig.

Mae’r SQuID yn cynnwys cwestiynau ynghylch proffidioldeb y sefydliad ac argaeledd asedau tymor byr. Os ydych yn bwriadu defnyddio’r dull hwn, dylech gynnwys cwestiwn FS.GEN.04 yn ogystal â chwestiynau FS.GEN.01 – FS.GEN.03. Rhaid cofio bod angen rhywfaint o arbenigedd ariannol i ddadansoddi’r atebion i gwestiwn FS.GEN.04 oddi wrth gwmnïau sy’n gwneud colled.

Os nad oes arbenigedd ariannol ar gael i ddadansoddi’r atebion hyn oddi wrth gwmnïau sy’n gwneud colled, dull arall i’w ddefnyddio yw cynnwys cwestiwn FS.GEN.04a yn unig a diystyru cynigwyr sydd wedi gwneud colled yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai risgiau sylweddol yn gysylltiedig â hyn:

- Diystyru cynigwyr ar sail dechnegol er bod ganddynt ddigon o gryfder ariannol i ddatrys y problemau tymor byr sy’n eu hwynebu.
- Diystyru nifer mawr o gynigwyr pan fydd amodau’r farchnad yn ei gwneud yn anodd am y tro i nifer o gyflenwyr fod yn broffidiol.
- Cystadleuaeth wael am fod y sylfaen cyflenwyr yn llai neu gyflenwyr allweddol wedi’u diystyru.

Cymhareb Prawf Asid

Ffordd syml arall (neu ychwanegol) o wirio cryfder ariannol yw defnyddio cymhareb prawf asid sy’n dangos hylifedd tymor byr y cwmni. Bydd y gymhareb hon yn dangos a oes digon o asedau tymor byr gan y cwmni i dalu am ei rwymedigaethau presennol heb werthu ei stoc. Mae cymhareb o fwy nag 1 yn dangos bod y cwmni’n gallu talu ei rwymedigaethau presennol a chymhareb o lai nag 1 yn dangos na all y cwmni dalu ei rwymedigaethau presennol ac y dylid bod yn ochelgar wrth ei ystyried. Dylech ystyried cynnwys cwestiwn FS.GEN.05.

Bydd cymarebau prawf asid yn amrywio dros amser. Mewn byd delfrydol, byddech am weld y ffigur diweddaraf. Fodd bynnag, pe byddech yn gofyn am weld cymhareb gyfredol neu ddiweddar, byddai cyfle gan gynigwyr i drin y data sydd ganddynt er mwyn rhoi ateb mwy ffafriol. Oherwydd hyn, mae'r cwestiwn yn y SQulD yn gofyn i'r cynigydd seilio ei gyfrifiad ar gyfrifon archwiliedig. Os ydych yn bwriadu pennu trothwy ar gyfer derbynioldeb ar sail prawf asid, mae'n bosibl y byddwch am gynnwys cwestiwn ychwanegol nad yw yn y SQulD sy'n gofyn am gyfrifiad mwy diweddar a/neu amgylchiadau lliniarol os bydd y gwerth yn is na'r trothwy. Dylai eich cwestiwn gael ei eirio fel y gall cyflenwyr hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf.

Risgiau sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau allanol o gryfder ariannol

Mae fersiynau cynharach o'r canllawiau hyn hefyd yn nodi y gallai prynwr ddefnyddio cynhyrchion sgorio credyd a risg a ddarperir gan drydydd parti'n fel Dun & Bradstreet, Equifax, Constructionline ac eraill, yn hytrach na gofyn am broffidoldeb a'r gymhareb prawf asid, er mwyn rhoi mesur syml o risg ariannol heb fod angen arbenigedd ariannol mewnol.

Fodd bynnag, mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 wedi pwysleisio pwysigrwydd tryloywder wrth bennu meini prawf dethol, yn cynnwys sicrhau y gall cyflenwyr hunanardystio. **Felly, cynghorir prynwyr mai dim ond i gefnogi gwiriad mewnol y dylent ddefnyddio cynhyrchion trydydd parti**

Mae'r broses sgorio mewn cynhyrchion trydydd parti a'r algorithm a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr yn amrywio o ran eglurder; mae rhai o'r dulliau'n eithaf tryloyw ac eraill yn fwy aneglur. Mae rhai cynhyrchion o natur ystadegol ac yn defnyddio cyfrifiadur i gynhyrchu sgorau mewn ffordd awtomataidd gan mwyaf, ac eraill yn dibynnu ar werthuso gan arbenigwyr i fwy o raddau. Mae hyn yn creu tair risg i'r prynwr:

Y risg gyntaf yw y bydd her ar y sail nad yw'r meini prawf ar gyfer dethol wedi'u datgelu'n llwyr i'r cynigwyr. Y rheswm dros hyn yw bod yr algorithmau sgorio mewn rhai cynhyrchion yn aneglur i ryw raddau: un ai am fod yr algorithm sy'n cyfrifo'r sgôr o dan batent (ac felly heb ei gyhoeddi) neu am nad yw'n glir sut y gall y cynigydd wella'r sgôr. Mae'n bosibl y gallai'r llys benderfynu bod hyn yn anghyson â'r gofyniad yn y Rheoliadau am feini prawf tryloyw ar gyfer dethol. Ar adeg llunio'r ddogfen hon, mae trafodaeth yn mynd rhagddi yn y gymuned gyfreithiol o ran p'un a fyddai her ar y sail hon yn debygol o lwyddo, ac ni cheir cynsail clir.

Yr ail risg yw y bydd her am fod y gwerthuso wedi'i wneud mewn ffordd amhriodol neu gan bobl anghymwys. Wrth werthuso cryfder ariannol yn allanol gan ddefnyddio cynhyrchion trydydd parti, ni fydd y prynwr yn osgoi'r risg o wynebu her, a gellir galw arno i ddangos mewn llys fod y sgôr wedi'i llunio a'i chyfrifo mewn ffordd deg a phriodol. Gall fod yn anodd gwneud hyn heb gael cymorth priodol gan y trydydd parti sydd wedi darparu'r sgôr.

Bydd y drydedd risg yn codi os na fydd cynnyrch y trydydd parti'n gallu rhoi sgôr ar gyfer cyflenwr penodol (er enghraifft, mae nifer o gynhyrchion trydydd parti yn gallu rhoi adroddiad am gwmni cyfyngedig syml, ond nid am bartneriaethau, partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, unig fasnachwyr na sefydliadau'r trydydd sector). Gall fod yn anodd trin cynigwyr yn deg a chyfartal os bydd y prawf yn cael ei gymhwyso at rai cyflenwyr ond nid at bawb yn yr ymarfer caffael. Felly mae'n bwysig ystyried pwy fydd eich cynigwyr posibl wrth gynllunio'r asesiad ariannol ac, os yw'n bosibl y bydd amrywiaeth o gynigwyr, edrychwch ymlaen llaw i weld pa fathau o fodel busnes y mae'r cynnyrch trydydd parti yn gallu rhoi adroddiad arnynt.

Os yw busnes yn rhy fach i fynnu ei fod yn cyflwyno cyfrifon archwiliedig llawn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r systemau trydydd parti wneud rhagdybiaethau ar sail y data sydd ar gael, fel cyfrifon cryno sydd heb eu harchwilio, ac oherwydd hyn mae'n debygol y bydd eu hasesiadau o fusnesau llai yn fwy gochelgar.

Rydym yn argymhell yn gryf bod y risgiau hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu defnyddio'r cynhyrchion hyn neu beidio, ac na ddylid eu defnyddio ar eu pen eu hunain. Ceir gwybodaeth am gynnwys trydydd parti a ddefnyddir yn aml gan y sector cyhoeddus yn Atodiad 1.

Ymglyfreitha sydd heb ei Gwblhau

Mae rhai prynwyr wedi cynnwys cwestiwn yn y cam dethol am ymglyfreitha cyfredol a allai effeithio ar sefyllfa ariannol y cynigydd. Nid yw holi o'r math hwn yn cael ei argymhell ac nid yw'r SQuID yn cynnwys cwestiwn o'r fath. Mae nifer o resymau dros hyn gan gynnwys:

- Byddai nodi ac egluro'r holl ymglyfreitha sy'n mynd ymlaen yn faich mawr ar gwmnïau mwy.
- Mae holi am ymglyfreitha sy'n berthnasol yn unig yn creu elfen annerbyniol o oddrychedd – bydd cynigwyr yn debygol o fanteisio ar hyn drwy gyflwyno ateb sy'n ffafriol iddynt.
- Nid yw'n bosibl gwybod cyn gwrandawriad llys beth fydd canlyniad yr ymglyfreitha ac felly byddai'n beryglus iawn i'r prynwr wrthod dewis cynigydd ar sail ei ddealltwriaeth o amgylchiadau'r ymglyfreitha a'i ganlyniad tebygol.
- Ni ellir cadarnhau a yw cynigwyr yn dweud y gwir ac, mewn rhai achosion, bydd yswirwyr yn mynnu na fydd gwybodaeth am hawliadau sydd yn yr arfaeth yn cael ei datgelu. Felly mae gofyn y cwestiwn hwn yn tueddu i gosbi'r cynigwyr hynny sy'n rhoi ateb geirwir a/neu sydd heb eu hatal rhag ateb gan eu hyswirwyr.

Yswiriant

Gweler y manylion o dan “dim gwiriad o statws ariannol” uchod. **Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer gwiriad llai manwl o sefydlogrwydd ariannol**

Gwybodaeth ariannol elfennol	FS.GEN.01 – FS.GEN.03 Casglu gwybodaeth elfennol (ni roddir sgôr am hyn fel arfer)
Proffidioldeb	FS.GEN.04 Cadarnhau bod yr endid sy'n cyflwyno cynnig wedi bod yn broffidiol yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf neu ei fod wedi rhoi rheswm cryf dros beidio ag ystyried bod unrhyw golled(ion) a gofnodwyd yn y ddwy flynedd diwethaf yn golygu risg arwyddocaol i sefydlogrwydd ariannol yr endid.
Cymhareb prawf asid	FS.GEN.05 Cadarnhau bod cymhareb prawf asid yr endid yn dderbyniol.
Yswiriant	FS.GEN.06 Cadarnhau bod sicrwydd yswiriant priodol gan yr endid sy'n cyflwyno cynnig ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus, indemnio proffesiynol ac atebolrwydd cyflogwyr.

Gwiriad manwl o statws ariannol

Mae'r SQulD yn cynnwys rhai cwestiynau elfennol sy'n casglu gwybodaeth ddefnyddiol am yr endid sy'n cyflwyno cynnig – fel arfer, bydd yn fuddiol i chi gynnwys cwestiynau FS.GEN.01 - FS.GEN.03.

Er mwyn cynnal gwiriad cynhwysfawr o statws ariannol, bydd angen dadansoddi cyfrifon ariannol y sefydliad yn fanwl gan gofio gwerth, hyd a nodweddion eraill y contract arfaethedig. Bydd dadansoddiad o'r fath yn galw am lawer o arbenigedd ariannol ac, felly, bydd yn cael ei gyflawni weithiau gan asiantaethau allanol fel Dun & Bradstreet neu Equifax, er y dylid defnyddio'r wybodaeth hon ynghyd â dadansoddiad mewnol lle y bo'n bosibl. Bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar gryfder mantolen yr endid sy'n cyflwyno cynnig a'r rhiant-gwmni (os yw hyn yn berthnasol) yn ogystal â'r llif arian a phroffidioldeb hanesyddol (a rhagamcanol weithiau).

Os defnyddir asiantaethau allanol i gynnal y gwiriad ariannol, mae'n werth nodi eu bod yn tueddu i edrych yn anffafriol ar risg a gall hyn ei gwneud yn anodd i fusnesau bach a chanolig eu maint a chynigwyr llai sefydledig. Os yw hyn yn debygol o fod yn broblem, ystyriwch a oes modd trefnu i arbenigedd arall fod ar gael.

Yn dibynnu ar ganlyniadau'r dadansoddiad cychwynnol, gall cynigwyr gymryd mwy o gamau lliniarol i roi sicrwydd, er enghraifft, drwy ofyn i'r rhiant-gwmni am warantau, gwarantau ariannol, bondiau perfformiad neu gadw fesul cam. Dim ond ar ôl cynnal y dadansoddiad cychwynnol y gellir penderfynu ar gamau o'r fath.

Yn dibynnu ar y ffordd yr ydych yn bwriadu cynnal eich gwerthusiad, ystyriwch gynnwys cwestiynau FS.GEN.07 – FS.GEN.08 yn ogystal â chwestiynau FS.GEN.01 – FS.GEN.03.

Yswiriant

Gweler y manylion o dan “dim gwiriad o statws ariannol” uchod.

Cyfrifon Banc Prosiect

Yn achos prosiectau adeiladu, yn lle gofyn am warantau neu fondiau, gellir defnyddio Cyfrif Banc Prosiect i reoli'r taliadau ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal â sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon, byddai hyn yn eich helpu i reoli risg o fethiant ariannol gan ei fod yn sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud ac yn lleihau costau ariannol.

Mae'r adran ar gynaliadwyedd yn y SQulD yn cynnwys cwestiynau am Dalu Teg (SU.GEN.05 a SU.CON.04). Mae cwestiwn FS.CON.02 am Gyfrifon Banc Prosiect wedi'i gynnwys er mwyn pennu a yw prif gontractwyr posibl yn *barod* i ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiect fel ffordd o gydymffurfio â Pholisïau Caffael Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thalu teg ar gyfer is-gontractwyr. Os ydych yn bwriadu defnyddio Cyfrif Banc Prosiect, mae'n bosibl y byddwch am egluro hyn yn y fanyleb yn hytrach na chynnwys y cwestiwn hwn.

Mae Cyfrifon Banc Prosiect yn gyfrifon banc sydd wedi'u neilltuo ac sydd â statws ymddiriedolaeth. Byddant yn cael eu hagog yn unswydd i ddarparu taliadau sy'n gysylltiedig â phrosiect penodol. Ar adeg llunio'r ddogfen hon, mae'r arfer hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer caffael gwaith adeiladu yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am Project Bank Accounts yn y Canllaw Cynllunio Caffael: <http://prp.wales.gov.uk/>

Y rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn o dalu yw:

- sicrhau bod holl aelodau'r gadwyn gyflenwi yn cael eu talu;
- sicrhau bod is-gontractwyr yn cael eu talu'n brydlon;
- lleihau costau ariannol fel taliadau ariannol.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer gwiriad manwl o sefydlogrwydd ariannol

Gwybodaeth ariannol elfennol	FS.GEN.01 – FS.GEN.03 Casglu gwybodaeth elfennol ar gyfer adnabod (ni roddir sgôr am hyn fel arfer)
Yswiriant	FS.GEN.06 Cadarnhau bod sicrwydd yswiriant priodol gan yr endid sy'n cyflwyno cynnig ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus, indemnio proffesiynol ac atebolrwydd cyflogwyr.
Cyfrifon	FS.GEN.07 Casglu cyfrifon y ddwy flwyddyn flaenorol fel y gellir eu dadansoddi i bennu cryfder ariannol yr endid.
Opsiynau ar gyfer lliniaru	FS.GEN.08 Cael gwybod a fydd y cynigydd yn gallu cynnig rhyw fath o warant ariannol neu fond i liniaru'r effaith sy'n ganlyniad i gryfder ariannol annigonol yr endid sy'n cyflwyno'r cynnig.
Cyfrifon Banc Prosiect	FS.CON.03 Gofyn i gynigwyr gytuno mewn egwyddor i ddefnyddio Cyfrif Banc Prosiect.

C – CYMHWYSTER A GALLU

Sut y dylwn holi ynghylch cymhwyster a gallu?

Nwyddau a gwasanaethau cyffredinol

Bydd y gost a'r anhwylustod i'r Prynwr os bydd y cyflenwr yn methu â chyflawni'r contract oherwydd diffyg cymhwyster neu allu yn debyg iawn – os nad yr un fath – i'r rheini sy'n dilyn methiant ariannol. Felly mae'r dull sydd wedi'i argymhell yma yn debyg iawn i'r un sydd wedi'i argymhell yn yr adran ar sefydlogrwydd ariannol.

Os bydd yn bosibl i'r Prynwr wneud contract â chyflenwr arall heb fawr o gost ac anhwylustod ychwanegol, gellir osgoi'r angen i ddadansoddi cymhwyster a gallu. Bydd hyn yn lleihau'r gost o gynnal y gystadleuaeth ac o gyflwyno cynigion. Hefyd bydd yn agor y gystadleuaeth i gynigwyr na fyddent yn cael cyfle fel arall i dyfu eu busnes neu feithrin gallu newydd. Gwneir hyn drwy dderbyn y risg y bydd yr ymarfer caffael cyntaf yn methu ac y bydd yn rhaid ei gynnal eto yn y dyfodol. Mae enghraifft o hyn yn y blwch isod.

Mae Cyngor Lleol yn prynu gwasanaethau glanhau ffenestri ar gyfer ei swyddfeydd. Bydd yr ymarfer caffael yn digwydd drwy'r weithdrefn agored drwy ddefnyddio technoleg e-dendro. Mae'r gofynion wedi'u pennu'n fanwl yn y tendr a'r cwbl y bydd angen i gynigwyr ei wneud yw cadarnhau y byddant yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen, eu bod yn bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch a darparu pris. Mae'r Cyngor yn bwriadu dyfarnu'r contract ar sail y tendr isaf ei bris sy'n cadarnhau y bydd y gofynion hyn wedi'u bodloni, ac mae am ddefnyddio contract a fydd yn sicrhau mai dim ond ar ôl cyflawni'r gwasanaeth yn unol â'r fanyleb y bydd taliadau'n cael eu gwneud.

Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn credu mai bach iawn fydd yr anhwylustod a'r gost o ganlyniad i fethiant gan y contractwr i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion. Bydd y ffenestri'n parhau'n fudr nes caiff contract newydd ei osod, ond dim ond ychydig o anhwylustod y bydd hyn yn ei achosi i staff; gellir cynnal ymarfer caffael newydd yn gyflym ac yn effeithlon gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Felly mae'r Cyngor yn penderfynu peidio â holi ynghylch Cymhwyster a Gallu yn ystod ei ymarfer caffael. (Bydd yn holi ynghylch Iechyd a Diogelwch ar wahân.) Os bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i rywun sy'n methu â'i gyflawni'n ddigonol, ni fydd yn cael ei dalu a bydd y Cyngor yn dileu'r contract ac yn ailgynnal y gystadleuaeth.

Fodd bynnag, os bydd y gost a'r anhwylustod o fethu â chyflawni'r contract yn arwyddocaol ond yn isel, gallwch fforddio cynnal *asesiad cryno*. Os bydd y gost a'r anhwylustod yn fwy, dylech gynnal *asesiad manwl*. Gallwch ddilyn y canllawiau isod i benderfynu ar y dull o asesu cymhwyster a gallu. Cofiwch y bydd cynnal *asesiad manwl* o gymhwyster a gallu yn galw ar amser ac adnoddau'r prynwr a'r cynigydd yn ystod yr ymarfer caffael ac mai dim ond cyflenwyr mwy sefydledig a fydd yn cael cyfle.

Gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Yn achos darparwyr gwasanaethau proffesiynol fel gwaith pensaernïol, peirianeg strwythurol, dylunio mecanyddol a thrydanol a thirfesur, rhaid iddynt fod â'r gallu i gyflawni eu gwaith a darparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae sgiliau a gwybodaeth arbenigol yn rhan annatod o'r gallu hwn ac mae'n briodol i chi ofyn cwestiynau am hyn ar y cam dethol.

Mae hefyd yn hanfodol bod gallu gan y sefydliadau sy'n gysylltiedig â chyfnodau adeiladu i gwblhau'r gwaith sy'n ofynnol, a bod cymhwyster ganddynt i wneud hynny o fewn y cyfnod a gytunwyd.

Oherwydd y gwahaniaeth yn natur gwasanaethau proffesiynol a gwaith adeiladu, mae canllawiau ar wahân wedi'u cynnwys ar gyfer y ddau ynghylch pa gwestiynau i'w cynnwys mewn holiadur cyn gymhwyso. Felly mae'r crynodebau o'r cwestiynau ar gyfer gwaith adeiladu a gwasanaethau proffesiynol wedi'u cynnwys gyda'r crynodeb o gwestiynau ar gyfer gwiriadau cynhwysfawr ar gyfer nwyddau a gwasanaethau eraill.

Wrth baratoi'r canllawiau hyn, ystyriwyd y defnydd o Constructionline. Mae rhywfaint o wybodaeth am Constructionline yn Atodiad 1.

Canllawiau ar asesu'r goblygiadau o fethiant contract

Mae'r tabl hwn yn berthnasol yn bennaf i nwyddau a gwasanaethau cyffredinol ond gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer categorïau caffael eraill. Rydym wedi'i gynnwys er mwyn rhoi arweiniad yn unig; mae'n *enghraifft* o'r ffordd o fesur y gost a'r anhwylystod o ddelio â chyflenwr sy'n methu â chyflawni contract.

Ar gyfer adeiladu (gan gynnwys gwaith a gwasanaethau proffesiynol), darllenwch y canllawiau ar gyfer y gwiriad sylfaenol a'r gwiriad cynhwysfawr, gan eu bod yn cynnwys rhai canllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag adeiladu hefyd.

	Dim = 0	Isel = 1	Canolig = 2	Uchel = 4	Uchel iawn =8
Cost darparu gwasanaeth/ gallu dros dro yn ei le	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy
<u>Costau caffael</u> sy'n gysylltiedig â phrynu gwasanaeth neu allu arall a/neu dros dro	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy
Yr effaith ar y cyhoedd (yn cynnwys iechyd a diogelwch) a/neu ar enw da'r prynwr os bydd y cyflenwr yn methu â chyflawni'r contract.	Dim effaith allanol.	Effaith fach iawn ar y cyhoedd; dim effaith debygol ar ganfyddiad y cyhoedd.	Rhywfaint o effaith ar y cyhoedd; effaith negyddol fach ar ganfyddiad y cyhoedd.	Effaith ganolig ar y cyhoedd; effaith negyddol ganolig ar ganfyddiad y cyhoedd.	Effaith fawr ar y cyhoedd; effaith negyddol sylweddol ar ganfyddiad y cyhoedd; risg sylweddol i iechyd a diogelwch y cyhoedd.
Cosbau neu gostau uniongyrchol eraill a ddaw i ran y prynwr os bydd y cyflenwr yn methu â chyflawni'r contract	Llai na £5,000	Tua £10,000	Tua £25,000	Tua £50,000	Tua £100,000 neu fwy

Cyfarwyddiadau

1. Cyfrifwch y pwyntiau ym mhob rhes sy'n cyfateb i'r effaith debygol o fethiant y contract.

2. Adiwrch y pwyntiau a dilynwrch y canllawiau isod i bennu eich dull o wirio cymhwyster a gallu'r cynigywr.

0 - 1 pwynt (effaith o hyd at oddeutu £10,000): dim gwiriad o gymhwyster a gallu

2 – 4 pwynt (effaith rhwng oddeutu £10,000 a £50,000): **gwiriad sylfaenol** o gymhwyster a gallu

5 pwynt neu fwy (effaith o fwy na £50,000): **gwiriad cynhwysfawr** o gymhwyster a gallu

Gwiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Y dull o gynnal gwiriad sylfaenol sydd wedi'i argymhell yw holi am brofiad perthnasol diweddar, gofyn am drosiant hanesyddol (mewn gwasanaethau perthnasol) sy'n gymesur â'ch gofynion, a sicrhau bod yr holl ardystiadau angenrheidiol gan y cynigydd.

Gallu cyffredinol

Mae'r SQuID yn cynnwys cwestiwn – CC.GEN.01 – sy'n rhoi lle i'r cynigydd ddarparu datganiad cyffredinol o allu ar gyfer ei sefydliad. Ni ddylid rhoi sgôr am y cwestiwn hwn – a dylech sicrhau bod canllawiau yn cael eu rhoi i gynigywr i sicrhau nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth hanfodol yn yr ateb i'r cwestiwn hwn yn yr holiadur dethol sydd heb gael ei chynnwys mewn lle arall yn y dogfennau y maent yn eu cyflwyno. Rydym wedi cyfyngu hyn i ymateb cryno.

Profiad

Bydd bron bob amser yn bwysig bod profiad perthnasol gan y cynigydd sy'n ennill y contract a fydd yn ei alluogi i ddarparu'r nwyddau, gwasanaethau neu waith gofynnol; mae hyn yn ffordd syml o werthuso ei *allu*.

Bydd yn anodd cael atebion buddiol gan gynigywr ynghylch eu profiad os na fyddwch yn rhoi disgrifiad da o'r gofynion ac yn gadael iddynt ddangos sut mae eu profiad yn berthnasol iddynt. P'un a ydych yn defnyddio proses dau gam (e.e. gweithdrefn gyfyngedig) neu broses un cam, mae'n arfer da rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl, mor gynnar â phosibl, â darpar gynigywr.

Lle y bo'n bosibl, dylech sicrhau nad ydych yn diystyru cynigywr sydd â'r gallu i gyflawni'r contract ond sydd heb gyflawni'r union un peth o'r blaen. Efallai eu bod yn ehangu i feysydd newydd, ond eu bod eisoes yn meddu ar y profiad perthnasol. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig fentro i farchnadoedd newydd neu arloesi, a gall hyn fod yn fanteisiol i gyflenwyr lleol hefyd. Ar y llaw arall, mae'n bosibl eich bod yn disgwyl cael nifer mawr o gynigywr ac y byddai'n well gennych ddewis y rheini sydd â'r profiad mwyaf yn unig, er mwyn lleihau'r risg o fethu. Os felly, gellid rhoi sgôr am y cwestiwn hwn a rhoi pwysoliad cymharol uchel iddo.

Pa ddull bynnag a ddefnyddiwrch, gallwch gynnwys cwestiwn CC.GEN.02 – neu gwestiwn tebyg os ydych am ei addasu ar gyfer eich prosiect. Pwrpas y cwestiwn hwn yw holi am brofiad perthnasol, nid o reidrwydd y profiad o ddarparu'r union un nwyddau, gwasanaethau neu waith yn ddiweddar.

Trosiant

Gall trosiant fod yn ffordd syml a defnyddiol o fesur y *cymhwyster* i gyflawni'r contract. Er hynny, rhaid ystyried nifer o faterion sy'n gysylltiedig â hyn.

Yn gyntaf, dim ond os yw'r contract i'w gyflawni dros gyfnod penodol y bydd trosiant yn ffordd ddefnyddiol o fesur cymhwyster, yn enwedig os oes angen staff medrus y gallai fod yn anodd eu recriwtio'n gyflym, neu os yw'r adnoddau'n gyfyngedig. Fodd bynnag, os bydd yn hawdd i'r cynigydd osod rhywfaint o'r gwaith yn allanol, a/neu ddefnyddio staff neu adnoddau dros dro, mae'n bosibl na fydd angen iddo fod â'r cymhwyster angenrheidiol ar y pryd.

Yn ail, rhaid ystyried strwythur cyfreithiol a statws ariannol y darpar gynigwyr cyn cynnwys cwestiwn am drosiant. Er enghraifft, nid oes trosiant sefydledig gan gyfrwng at ddibenion arbennig (SPV). Hefyd, bydd busnesau'n ehangu'n gyflym weithiau gan ddefnyddio ffynonellau cyllid newydd ac, wrth wneud hynny, gallant feithrin y cymhwyster a'r gallu sydd eu hangen i ymgymryd â gwaith ychwanegol sylweddol heb fod â throsiant hanesyddol ar y lefel honno.

Yn drydydd, dim ond os yw trosiant yn *berthnasol* i allu'r cynigydd i ddarparu'r gwasanaeth (neu gynnyrch) gofynnol y bydd yn ddefnyddiol wrth fesur cymhwyster. Os yw sefydliad mwy (fel arfer) yn cynnig nifer o wasanaethau amrywiol, gallai honni bod ei drosiant yn uchel er mai ychydig iawn o'r gwasanaethau sy'n berthnasol i'r gofynion. Mae'n bwysig bod y cwestiwn yn canolbwyntio ar drosiant sy'n *uniongyrchol berthnasol*. Gallwch wneud hyn drwy ddiwygio'r canllawiau i gynigwyr er mwyn egluro beth yw ystyr trosiant perthnasol yng nghyd-destun yr ymarfer caffael.

Yn gyffredinol, bydd yn well gosod trothwy *perthnasol* ar gyfer trosiant sy'n addas i faint y contract a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef, gan roi cyfle i gynigwyr (CC.GEN.03b), os yw'n bosibl, i egluro'r camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg os yw eu trosiant yn is. Prif bwrpas y cam dethol yw pennu'r cynigwyr sy'n ddigon sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu cyflawni'r contract – dylai fod yn bosibl rhoi'r sgôr uchaf i bob cwmni y credir ei fod yn dderbyniol o ran lefel y risg. Gall trothwyon clir ar gyfer derbynioldeb fod yn ddefnyddiol iawn i *gyflenwyr* wrth ystyried a fyddant yn cyflwyno cynnig neu beidio. Mae'r cwestiynau SQuID yn fersiwn 3 wedi'u geirio yn y fath fodd fel, os byddwch am gynnwys y cwestiwn, bydd angen i chi nodi isafswm trosiant yn y canllawiau i'r cwestiynau. Bydd hyn yn galluogi cynigwyr addas i hunanardystio a chynigwyr anaddas i dynnu'n ôl.

Trosiant Consortia

Yn yr un modd, wrth ddadansoddi sefydlogrwydd ariannol consortiwm, bydd yn bwysig ystyried y math o gontract yr ydych yn ei hysbysebu, a'r mathau o consortia a all gyflwyno cynnig. Bydd darlun cyffredinol o drosiant yn ddefnyddiol os yw'r consortiwm yn cynnwys sefydliadau tebyg sy'n dod at ei gilydd i ehangu eu cymhwyster. Fodd bynnag, os yw aelodau'r consortiwm yn cyflawni rolau gwahanol (neu'n gwasanaethu ardaloedd daearyddol gwahanol), byddai methiant gan un aelod i gyflawni'r contract oherwydd diffyg cymhwyster yn gallu creu mwy o risg i lwyddiant y prosiect. Mewn achos o'r fath, gall fod yn fwy priodol ei gwneud yn ofynnol bod cymhwyster digonol gan aelodau unigol y consortiwm. Mae Llywodraeth Cymru (mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) wedi cyhoeddi Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd. Mae cyngor manwl ym Mhennod 3 ar ddadansoddi data ariannol consortia.

Ceir rhagor o fanylion yn www.wales.gov.uk/jointbidding

Trothwyon Trosiant

Yn hanesyddol, mae prynwyr y sector cyhoeddus wedi gosod amod yn aml na fydd contract yn cyfrif am fwy na 40% o drosiant y cyflenwr posibl. Cafwyd bod hon yn gymhareb ddefnyddiol, yn enwedig mewn prosiectau adeiladu, er enghraifft. Er hynny, nid yw'n addas i'w chymhwyso'n gyffredinol. Er enghraifft, gall cwmni bach ddelio ag archeb am gyflenwadau mawr os yw'n gweithredu fel canolwr ac yn talu wrth dderbyn y cyflenwad yn unig. Yn yr un modd, byddai'r risgiau sy'n codi wrth i gwmni bach gyflawni un eitem o waith ymgynghoriaeth uchel ei werth yn llai o lawer na phe bai'r un cwmni'n cyflawni contract gwasanaeth dros saith blynedd.

DS. O dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ni ddylech bennu terfyn ar isafswm trosiant cyflenwyr sy'n fwy na dwywaith gwerth y contract, oni allwch gyfiawnhau gwneud hynny.

Yn gyffredinol, bydd yn well gosod trothwy *perthnasol* ar gyfer trosiant sy'n addas i faint y contract a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef, gan roi cyfle i gynigwyr (CC.GEN.03b), os yw'n bosibl, egluro'r camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg o drosiant is. Prif bwrpas y cam dethol yw pennu'r cynigwyr sy'n ddigon sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu cyflawni'r contract – dylai fod yn bosibl rhoi'r sgôr uchaf i bob cwmni y credir ei fod yn dderbyniol o ran lefel y risg. Gall trothwyon clir ar gyfer derbynioldeb fod yn ddefnyddiol iawn i *gyflenwyr* wrth ystyried a fyddant yn cyflwyno cynnig neu beidio. Mae'r cwestiynau SQuID yn fersiwn 3 wedi'u geirio yn y fath fodd fel, os byddwch am gynnwys y cwestiwn, bydd angen i chi nodi isafswm trosiant yn y canllawiau i'r cwestiynau. Bydd hyn yn galluogi cynigwyr addas i hunanardystio a chynigwyr anaddas i dynnu'n ôl.

Ardystiadau a chwestiynau eraill

Un o'r rhesymau dros gynnwys Cwestiwn CC.GEN.01 (datganiad am allu cyffredinol) yw ei fod yn rhoi cyfle i gynigwyr ddisgrifio eu prif weithgareddau yng nghronfa ddata SQuID. Er na fyddai'n arferol rhoi sgôr am yr ateb hwn na'i ddefnyddio i ddewis cynigwyr, gellir ei gynnwys mewn holiaduron er mwyn deall cyd-destun yr atebion i nifer o gwestiynau eraill.

Fel arfer, bydd angen cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â gofynion y contract yn y meini prawf ar gyfer dethol. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys cwestiynau am ardystiadau at ofynion penodol (sylwer bod iechyd a diogelwch yn cael eu trafod mewn adran wahanol), a chofrestriadau masnach y mae'n rhaid i'r cynigydd eu sicrhau er mwyn gweithredu'n gyfreithlon. Bydd yn rhaid i chi bennu'r cwestiynau perthnasol a'u hysgrifennu eich hun. Wrth eu hychwanegu, ceisiwch sicrhau bod eu harddull yn gyson a'ch bod yn rhoi canllawiau defnyddiol i gynigwyr ynghylch y dull o sgorio'r atebion.

Cyn ychwanegu cwestiynau, cofiwch eich bod wedi penderfynu mai gwiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu y byddwch yn ei gynnal. Ystyriwch a yw'r cwestiynau'n angenrheidiol ac yn ddefnyddiol, ac a fyddent yn gallu cyfyngu ar arloesedd.

Y Gymraeg

Mae un cwestiwn ynghylch y Gymraeg wedi'i gynnwys yn y SQuID. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau y bydd cynigwyr yn bodloni gofynion mesur y Gymraeg os byddant yn llwyddiannus. Efallai yr hoffech ychwanegu cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r contract mewn achosion lle mae profiad o gyflawni yn Gymraeg yn ddangosydd pwysig o allu. Dylech fod yn glir ynghylch beth gaiff ei ystyried yn ateb derbyniol.

Y cam tendro

Cofiwch ei bod hefyd yn bosibl (ac yn ddymunol yn aml) cynnwys cwestiynau am y dyfodol yn ogystal â'r gorffennol yn y meini prawf ar gyfer dethol wrth werthuso tendrau, er mwyn gofyn am eglurhad gan gynigwyr am eu cynlluniau a/neu eu dulliau arfaethedig. Felly ni fydd yn rhaid i chi holi am bob dim yn y cam dethol; cewch gyfle wrth werthuso tendrau i sicrhau bod cynlluniau cadarn gan eich cynigwyr i gyflawni eich gofynion. Mae hefyd yn symlach cwmpasu llawer o faterion o fewn y fanyleb, yn hytrach na gofyn i gyflenwyr gadarnhau eu bod yn cydymffurfio ar y cam dethol.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer gwiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu

Datganiad am allu	CC.GEN.01 Gofyn am ddatganiad cyffredinol am allu ar gyfer y sefydliad sy'n cyflwyno cynnig.
Profiad	CC.GEN.02 Gwirio bod profiad diweddar a pherthnasol gan y cynigydd sy'n dangos ei fod yn gallu cyflawni'r gofynion.
Trosiant	CC.GEN.03 Gwirio bod trosiant y cynigydd yn uwch o lawer na gwerth y contract er mwyn cael prawf syml o'i gymhwyster i ymgymryd â'r gwaith.
Ardystiadau, etc	Cwestiynau tebyg i CC.GEN.04 Gwirio bod gan y cynigydd y nifer o staff cymwys addas sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r gwaith.
Y Gymraeg	CC.GEN.08 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion mesur y Gymraeg.

Gwiriad cynhwysfawr o gymhwyster a gallu i ddarparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Os ydych wedi penderfynu cynnal gwiriad cynhwysfawr, y dull o weithredu sydd wedi'i argymhell yw cynnal gwiriad sylfaenol ac, ar ben hynny, holi am argaeledd unrhyw adnoddau penodol (pobl, a chyfleusterau os ydynt yn bwysig), hanes blaenorol o gyflawni contractau'n llwyddiannus, unrhyw ardystiadau sy'n angenrheidiol a hefyd, o bosibl, llyfr archebion y cynigydd.

Yn gyntaf, darllenwch y canllawiau ar y gwiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu a phenderfynwch pa gwestiynau o blith CC.GEN.01, CC.GEN.02 a CC.GEN.03 y byddwch yn eu cynnwys.

Os yw'r ymarfer caffael ar gyfer contract adeiladu, mae'n bosibl y byddwch am gynnwys cwestiwn CC.CON.01 yn lle CC.GEN.01 gan ei fod yn holi'n fwy penodol am brofiad y cynigydd o gyflawni gwahanol fathau o gontractau safonol.

Adnoddau penodol

Oherwydd y gost a'r anhwylystod a allai godi o fethu â chyflawni'r contract, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cynnwys cwestiynau wrth werthuso'r tendrau ynghylch cynlluniau a/neu ddulliau penodol y cynigydd ar gyfer cyflawni'r gwaith – gan gynnwys yr adnoddau y bydd yn eu darparu. Drwy wneud hyn, byddwch yn gallu dewis y tendr sydd, yn ogystal â rhoi'r gwerth gorau am arian, yn cyflwyno cynllun cadarn. Gan y byddwch am seilio'r contract ar y cynllun hwn, byddwch am ei ystyried wrth werthuso'r tendr.

Yn ogystal â hyn (yn enwedig os ydych yn dilyn proses dau gam), bydd yn ddoeth gofyn cwestiynau yn y cam dethol am yr adnoddau sydd ar gael i gynigwyr. Gan fod y gwiriad hwn yn ymwneud â hanes blaenorol, dim ond tendrau gan gynigwyr sydd â chymhwyster a gallu mewn egwyddor y byddwch yn gorfod eu gwerthuso.

Bydd y cwestiynau am adnoddau'n ymwneud yn benodol â gofynion y contract. Mae enghreifftiau o'r rhain yn y catalog: mae CC.GEN.04 yn gwestiwn am aelodau staff sydd â sgiliau penodol. Gofalwch eich bod yn addasu'r canllawiau ar sgorio yn ogystal â'r cwestiwn.

Ar gyfer rhai mathau o ofynion, gall fod yn fuddiol cynnwys cwestiwn am gyfleuster neu adnodd penodol y bydd ei angen ar y cynigydd. Os felly, bydd angen i chi gynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r contract.

Llyfr Archebion

Nid ydym wedi cynnwys cwestiwn am y Llyfr Archebion yn y SQuID. Y rheswm dros hyn yw, er y byddai o gymorth cael gwybod a yw adnoddau'r cynigydd wedi'u neilltuo'n barod ar gyfer contractau a enillwyd o'r blaen, y dylid ei ystyried ochr yn ochr â blaen-gynlluniau'r cynigydd ar gyfer cyflawni'r contract. Byddai peidio â gwneud hyn yn creu'r perygl o ddiystyru'r rheini a allai arloesi, defnyddio is-gontractwyr, cyflogaion tymor byr neu ailflaenoriaethu gwaith arall. Bydd yn well delio â'r Llyfr Archebion yn y cam tendro pan fyddwch yn gallu gofyn i'r cynigwyr am gynlluniau pendant i fod yn sail i'r contract.

Ardystiadau a chwestiynau eraill

Un o'r rhesymau dros gynnwys cwestiwn CC.GEN.01 (datganiad am allu cyffredinol) yw ei fod yn rhoi cyfle i gynigwyr ddisgrifio eu prif weithgareddau yng nghronfa ddata SQuID. Er na fyddai'n arferol rhoi sgôr am yr ateb hwn na'i ddefnyddio i ddewis cynigwyr, gellir ei gynnwys mewn holiaduron er mwyn rhoi cyd-destun ar gyfer deall yr atebion i nifer o gwestiynau eraill. Dylech sicrhau bod cyfarwyddyd yn cael ei roi i gynigwyr i beidio â chynnwys gwybodaeth hanfodol yn yr ateb i'r cwestiwn hwn yn yr holiadur dethol sydd heb gael ei chynnwys mewn lle arall yn y dogfennau y maent yn eu cyflwyno.

Fel arfer, bydd angen cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â gofynion y contract yn y meini prawf ar gyfer dethol. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys cwestiynau am ardystiadau at ofynion penodol (sylwer bod iechyd a diogelwch yn cael eu trafod mewn adran wahanol), a chofrestriadau masnach y mae'n rhaid i'r cynigydd eu sicrhau er mwyn gweithredu'n gyfreithlon. Bydd yn rhaid i chi bennu'r cwestiynau perthnasol a'u hysgrifennu eich hun. Wrth eu hychwanegu, ceisiwch sicrhau bod eu harddull yn gyson a'ch bod yn rhoi canllawiau defnyddiol i gynigwyr ynghylch y dull o sgorio'r atebion.

Cyflawni contractau'n llwyddiannus (ac iawndal penodedig mewn prosiectau adeiladu)

Mae dau gwestiwn wedi'u cynnwys yn y SQuID y gallwch eu defnyddio i gael gwybod am hanes y cynigydd o ran cyflawni prosiectau blaenorol yn llwyddiannus: mae CC.GEN.07 yn gofyn a yw symiau wedi'u didynnu oddi wrth gynigwyr am iawndal (ond gweler y paragraff isod am brosiectau adeiladu) ac mae CC.GEN.06 yn gofyn a yw contractau cynigwyr wedi'u dileu o'r blaen am eu bod wedi methu â'u cyflawni. Rydym yn argymhell bod y ddau gwestiwn yn cael eu cynnwys fel arfer yn y meini prawf ar gyfer dethol, ond bydd yn syniad da ystyried a oes modd defnyddio cwestiwn arall sy'n ymwneud â gofynion penodol gan fod elfen o oddrychedd yn CC.GEN.07 (e.e. beth yw "methu â chyflawni"?).

Yr arfer gan rai Awdurdodau yn y gorffennol ar gyfer prosiectau adeiladu oedd cynnwys cwestiwn yn yr holiadur cyn gymhwyso am iawndal penodedig ar gontractau blaenorol er mwyn penderfynu a oedd y cynigydd wedi methu â chyflawni telerau contract o'r blaen. Fodd bynnag, ym maes adeiladu, mae'n arfer cyffredin negodi iawndal penodedig, a gall y manylion fod yn gyfrinachol fel rhan o setliad masnachol. Er hynny, mae'n bosibl y byddwch am gynnwys CC.GEN.07 o hyd os oes angen tystiolaeth arnoch i ddangos bod camau wedi'u cymryd i ddelio ag unrhyw fethiant i gyflawni telerau contract.

Adfer ar ôl trychineb, parhad busnes a seiberddiogelwch

Yn dibynnu ar natur y gofynion a'r cynigwyr tebygol, gall fod yn fuddiol cynnwys cwestiwn am adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond cynigwyr sydd â'r gallu i gyflawni contract ar ôl trychineb a gaiff eu dewis. Mae hyn yn bwysig iawn yng nghyd-destun TG a gwasanaethau eraill sy'n hanfodol i fusnes.

Er hynny, gall y pwnc hwn fod yn dechnegol iawn ac mae angen arbenigedd sylweddol i werthuso ymatebion gan gynigwyr mewn ffordd ystyrlon. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhai cwestiynau a chanllawiau i'w cynnwys yn y SQuID.

Mae CC.GEN.09 yn cwmpasu Seiberddiogelwch. Mae hyn yn ofyniad newydd ar yr holl gontractau a ariennir gan y Llywodraeth sy'n cwmpasu gwybodaeth bersonol (o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelu Data) neu wybodaeth a ystyrir yn SWYDDOGOL-SENSITIF. Mae hefyd yn arfer da ar gyfer holl gontractau'r sector cyhoeddus. Cyber Essentials yw'r cynllun ardystio a ffefrir gan y Llywodraeth. Mae'n rhaid i safonau eraill roi sicrwydd annibynnol bod y polisiau, gweithdrefnau a rheolaethau canlynol ar waith er mwyn iddynt gael eu hystyried yn gyfatebol:

1. **Walïau tân a phyrth rhyngwyd terfyn** – sicrhau y caiff y dyfeisiau hyn eu sefydlu'n dda naill ar ffurf caledwedd neu feddalwedd a'u bod yn llwyr weithredol.
2. **Ffurfweddu diogel** – sicrhau y caiff systemau eu ffurfweddu yn y ffordd fwyaf diogel i ddiwallu anghenion y sefydliad.
3. **Rheoli mynediad** – sicrhau mai dim ond y rheini a ddylai gael mynediad i systemau sy'n cael mynediad a bod hynny ar y lefel briodol.
4. **Diogelwch maleiswedd** – sicrhau y caiff diogelwch feirws a maleiswedd ei osod a'i fod yn gyfredol.
5. **Rheoli patsys** – sicrhau y caiff y fersiwn ddiweddaraf wedi'i hategu o gymwysïadau ei defnyddio a bod yr holl batsys angenrheidiol a ddarparwyd gan y gwerthwr wedi'u cymhwyso.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.cyberstreetwise.com/cyberessentials

Gwirio staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Rhoddwyd ystyriaeth i wirio staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth ddatblygu cwestiynau a chanllawiau'r SQuID. Rydym yn argymhell bod gofyniad i wirio staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei gynnwys ym manyleb ymarfer caffael, ac os bydd angen unrhyw gwestiynau am hyn, dylid eu cynnwys ar y cam tendro. Mae hyn oherwydd, pan fydd angen, dylai'r cynllun manwl i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddynt ddechrau darparu'r gwasanaeth neu brosiect, neu fynd ar y safle adeiladu, fod yn gyson ag amserlen y gwaith a'r adnoddau sydd ar gael.

Adeiladwyr Ystyriol (contractwyr)

Dylech gynnwys cwestiwn CC.CON.03 os yw'n bwysig bod y gwaith yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n ystyriol o breswylwyr lleol/cymdogion.

Y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Dylech gynnwys cwestiwn CC.CON.04 am brosiectau adeiladu er mwyn sicrhau y bydd pawb sy'n mynd ar safleoedd yn gymwys.

Y Gymraeg

Gweler y canllawiau yn yr adran ar "wiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu"

Y cam tendro

Gweler y canllawiau yn yr adran ar “wiriad sylfaenol o gymhwyster a gallu”

Crynodeb o’r cwestiynau ar gyfer gwiriad cynhwysfawr o gymhwyster a gallu

Datganiad am allu	CC.GEN.01 Gofyn am ddatganiad cyffredinol am allu ar gyfer y sefydliad sy’n cyflwyno cynnig.
Profiad	CC.GEN.02 Gwirio bod profiad diweddar a pherthnasol gan y cynigydd sy’n dangos ei fod yn gallu cyflawni’r gofynion.
Trosiant	CC.GEN.03 Gwirio bod trosiant y cynigydd yn uwch o lawer na gwerth y contract er mwyn cael prawf syml o’i gymhwyster i ymgymryd â’r gwaith.
Ardystiadau etc	Cwestiynau tebyg i CC.GEN.04 Gwirio bod gan y cynigydd y nifer angenrheidiol o staff â chymwysterau addas.
Cyflawni contractau’n llwyddiannus	CC.GEN.06 – CC.GEN.07 Gwirio bod hanes o gyflawni contractau’n llwyddiannus gan y cynigydd dros y tair blynedd diwethaf a’i fod wedi cymryd camau priodol i atal problemau rhag codi eto.
Y Gymraeg	CC.GEN.08 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion mesur y Gymraeg.
Seiberddiogelwch	CC.GEN.09 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion Cynllun Ardystio Cyber Essentials.

Crynodeb o’r cwestiynau ar gyfer gwasanaethau proffesiynol

Datganiad am allu	CC.CON.01 Holi am brofiad y cynigydd o gyflawni gwahanol fathau o gontractau safonol.
Profiad (cyffredinol)	CC.GEN.02 Gwirio bod profiad diweddar a pherthnasol gan y cynigydd sy’n dangos ei fod yn gallu cyflawni’r gofynion.
Argaeledd adnoddau	CC.GEN.04 Gwirio bod adnoddau penodol ar gael gan y cynigydd sydd eu hangen i gyflawni’r gofynion.
Perfformiad blaenorol	CC.GEN.06 Gwirio nad yw contract blaenorol â’r cynigydd wedi’i ddileu oherwydd methiant i’w gyflawni.
Y Gymraeg	CC.GEN.08 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion mesur y Gymraeg.
Seiberddiogelwch	CC.GEN.09 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion Cynllun Ardystio Cyber Essentials.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer gwaith (contractwyr)

Datganiad am allu	CC.CON.01 <i>Holi am brofiad y cynigydd o gyflawni gwahanol fathau o gontractau safonol.</i>
Profiad (cyffredinol)	CC.GEN.02 <i>Gwirio bod profiad diweddar a pherthnasol gan y cynigydd sy'n dangos ei fod yn gallu cyflawni'r gofynion.</i>
Trosiant	CC.GEN.03 <i>Gwirio bod trosiant y cynigydd yn uwch o lawer na gwerth y contract er mwyn cael prawf syml o'i gymhwyster i ymgymryd â'r gwaith.</i>
Perfformiad blaenorol	CC.GEN.06 <i>Gwirio nad yw contract blaenorol â'r cynigydd wedi'i ddileu oherwydd methiant i'w gyflawni.</i>
Adeiladwyr Ystyriol	CC.CON.03 <i>Gwirio bod yr ardystiadau angenrheidiol gan y cynigydd er mwyn dangos ei fod yn gallu cyflawni'r gwaith.</i>
Y bydd ymwelwyr â safleoedd yn gymwys	CC.CON.04 <i>Gwirio y bydd pawb a fydd yn ymweld â safleoedd yn gymwys.</i>
Y Gymraeg	CC.GEN.08 <i>Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion Mesur y Gymraeg.</i>
Seiberddiogelwch	CC.GEN.09 <i>Cadarnhau y bydd y cynigydd yn bodloni gofynion Cynllun Ardystio Cyber Essentials.</i>

D - RHEOLAETH

Sut y dylwn holi ynghylch rheolaeth?

Mae'n bosibl y bydd llwyddiant o ran darparu'r cynnyrch, gwasanaeth neu waith gofynnol yn dibynnu ar allu'r contractwr i reoli cysondeb ei allbynnau, ac effeithiolrwydd ei brosesau "adborth" ar gyfer rheoli'r prosiect a chyfathrebu â chwsmeriaid.

Defnyddiwch y canllawiau ym mhob un o'r adrannau isod i benderfynu sut i ddelio â'r materion hyn.

Sicrhau Ansawdd (cysondeb)

Yn y broses tendro, bydd yn rhaid i chi ddisgrifio'n fanwl y gwasanaethau, cynhyrchion neu waith sy'n ofynnol gennych ac unrhyw safonau y mae angen eu cyrraedd. Yn ogystal â hyn, gall fod yn fuddiol sicrhau bod y cynigydd yn defnyddio technegau sicrhau ansawdd i'w alluogi i reoli cysondeb ansawdd ei allbynnau. Mae'n bwysig nodi mai pwrpas y technegau hyn yw sicrhau bod yr ansawdd yn gyson, nid ei fod yn uchel – mae'n bosibl y bydd angen pennu'r union ansawdd a safonau ar wahân.

Er mwyn penderfynu a ddylid cynnwys cwestiynau am Sicrhau Ansawdd, atebwch y cwestiwn canlynol: a yw natur y cynnyrch, gwasanaeth neu waith yn golygu ei bod yn debygol y bydd technegau Sicrhau Ansawdd yn cyfrannu'n helaeth at gysondeb yr allbynnau a gyflawnir? Mae hyn yn wir fel arfer am gaffael gofal cymdeithasol, gwasanaethau adeiladu a chynnal tai ac wrth gaffael nwyddau. Os ydych wedi ateb y cwestiwn uchod yn gadarnhaol, yna rydym yn argymhell eich bod yn gofyn cwestiwn am sicrhau ansawdd.

Gellir dewis rhwng dau ddull o weithredu wrth ddelio â sicrhau ansawdd. Y cyntaf yw ei gwneud yn ofynnol bod y cynigydd yn defnyddio system rheoli ansawdd sydd wedi'i hardystio gan drydydd parti ac sydd â chwmpas priodol. Dylid nodi mai'r cyngor presennol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw mai dim ond cyrff ardystio sydd wedi'u hachredu gan UKAS (neu gyrff cyfatebol mewn gwledydd eraill) a ddylai ddarparu gwasanaeth o'r fath. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.ukas.com. Gallai hyn fod yn angenrheidiol os oes angen system rheoli ansawdd sefydledig a ffurfiol i gyflawni'r gofynion. Mantais arall o weithredu fel hyn yw ei fod yn lleihau'r angen am werthuso gan y prynwr. Os byddwch am weithredu fel hyn, dylech gynnwys cwestiwn MA.GEN.01, ond rhaid cofio, hyd yn oed ar gyfer busnes bach, y gall y gost o brynu a chynnal system o'r fath fod rhwng £10k a £20k fel arfer. Polisi Llywodraeth y DU yw na ddylai fod yn ofynnol bod cynigwyr yn talu am ardystiad penodol gan drydydd parti cyn cyflwyno cynnig (heblaw mewn rhai amgylchiadau sy'n ymwneud, er enghraifft, â diogelwch a rhai achrediaid masnach lle y mae hyn yn oddefadwy neu'n angenrheidiol). Fodd bynnag, mae ISO 9001 yn Safon Ryngwladol sy'n cael ei defnyddio'n eang ledled Ewrop a thrwy'r byd (roedd mwy na 600,000 o dystysgrifau wedi'u rhoi drwy'r byd erbyn 2002); felly ni fydd y defnydd o'r safon hon at ddibenion caffael yn y DU yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn unrhyw gwmnïau. Gallai nodi bod safon ryngwladol yn un o ofynion y broses ddethol gael ei ystyried yn rhesymol pan ellir cyfiawnhau'r gofyniad i sicrhau ansawdd.

Er mwyn cydymffurfio â safon ISO9001:

- Bydd polisi ansawdd ffurfiol gan y busnes sy'n ddatganiad ffurfiol gan y rheolwyr, a bydd cysylltiad agos rhyngddo a'r cynllun busnes ac anghenion cwsmeriaid. Mae'r polisi ansawdd wedi'i ddeall ac yn cael ei ddilyn ar bob lefel gan yr holl gyflogaion.

- Bydd penderfyniadau am y system ansawdd wedi'u seilio ar ddata sydd wedi'u cofnodi a chaiff y system ei harchwilio a'i gwerthuso'n gyson i sicrhau cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd.
- Bydd cofnodion yn dangos sut ac ym mhle yr oedd deunyddiau crai a chynhyrchion wedi'u prosesu, fel y gellir olrhain cynhyrchion a phroblemau at y ffynhonnell. Bydd gweithdrefnau ysgrifenedig gan y busnes i ddellio â diffyg cydymffurfio posibl a gwirioneddol. Rhaid iddo sicrhau na fydd neb yn defnyddio cynhyrchion gwael, rhaid iddo benderfynu beth i'w wneud â chynhyrchion gwael, delio ag achos sylfaenol unrhyw broblem, a chadw cofnodion er mwyn gwella'r system.
- Bydd angen i'r busnes adolygu perfformiad yn rheolaidd drwy archwiliadau a chyfarfodydd mewnol, a phenderfynu a yw'r system ansawdd yn effeithiol ac a oes modd ei gwella. Rhaid iddo ddellio â phroblemau blaenorol a phroblemau dichonol. Rhaid iddo gadw cofnodion o'r gweithgareddau hyn a'r penderfyniadau sy'n eu dilyn, a monitro eu heffeithiolrwydd. Rhaid iddo fod â gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer archwiliadau mewnol.

Gall y gost o fabwysiadu safon ISO9001 fod yn uchel iawn i fusnesau. Gall alw am gofnodi nifer o brosesau a gweithdrefnau ac am hyfforddi staff. Bydd yn galw am archwiliadau cyson a goruchwyliaeth gan reolwyr. Mewn cyferbyniad â hyn, gall y gost o ardystio gan drydydd parti fod yn gymharol isel a bydd yn cael ei gyflawni drwy archwilio ar y safle a monitro parhaus. Er hynny, gall rhai costau ardystio fod yn uchel iawn, hyd yn oed ar gyfer sefydliadau sydd â gweithdrefnau mewnol da. Felly, bydd rhai cynigwyr yn dewis cyflwyno eu gweithdrefnau eu hunain yn hytrach na defnyddio ymgynghorwyr allanol. Os yw cynigwyr wedi cael ardystiadau cydnabyddedig gan drydydd parti, dylai hyn fod yn ddigon, ac nid yw'n debygol y bydd arnoch angen disgrifiadau manwl o'r prosesau hyn hefyd. Gofynnwch gwestiwn MA.GEN.01 yn unig.

Os byddwch yn fodlon ystyried cyflenwyr sy'n gweithio ar gyfer ardystiad gan drydydd parti, neu sy'n barod i wneud hynny yn ystod cyfnod y contract, bydd angen cynnwys cwestiwn ychwanegol i ofyn am y manylion.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd system rheoli ansawdd gan gwmnïau sy'n cyflawni rhai o ofynion ISO 9001, ond nid pob un ohonynt, a gall fod yn ddigon i chi bennu gofyniad llai i gyflawni gofynion penodol yr ymarfer caffael. Os byddwch am weithredu fel hyn, dylech gynnwys cwestiwn MA.GEN.02. Gallwch ofyn yn syml i gynigwyr gadarnhau bod eu system rheoli ansawdd yn cynnwys elfennau penodol (e.e. MA.GEN.02a- MA.GEN.02d). O dan reoliadau contractau cyhoeddus 2015 dylid gofyn i gyflenwyr hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf dethol, a dim ond os byddant yn llwyddiannus y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth ategol. Mae (MA.GEN.02e) yn galluogi cyflenwyr i gyflwyno copiâu o'u gweithdrefnau rheoli ansawdd ar gam cynharach os byddant yn dymuno.

Bydd angen i chi benderfynu pa ddull gweithredu sydd fwyaf addas a gofyn cwestiwn MA.GEN.01 neu gwestiynau MA.GEN.01 a MA.GEN.02.

Rheoli consortiwm

Mae MA.GEN.04 yn ymwneud â phrosesau rheoli o fewn consortiwm. Ni fyddwch yn gwybod yn bendant p'un a fydd consortiwm yn gwneud cynnig ar gyfer eich contract, ac felly gall fod yn ddefnyddiol cynnwys y cwestiwn hwn mewn sawl contract fel y gallwch sicrhau bod consortiwm wedi dogfennu'r prosesau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod aelodau'r consortiwm wedi cytuno ar y prosesau cyfathrebu a datrys anghydfodau. Mae'r cwestiwn SQuID yn gofyn i gyflenwyr gadarnhau bod y trefniadau hyn ar waith, gan nodi y byddai'n rhaid iddynt fod mewn sefyllfa i gyflwyno tystiolaeth i ategu hyn, yn ddi-oed, pe byddent yn llwyddiannus. Mae'n galluogi'r opsiwn o gyflwyno'r dystiolaeth hon ar y cam hwn (y cam dethol).

Arferion gwrth-gystadleuol – gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Mewn ymarfer caffael gwaith adeiladu, bydd yn bwysig cael cadarnhad gan gynigwyr posibl fod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau priodol i atal arferion gwrth-gystadleuol. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg ym mis Rhagfyr 2009, rhoddwyd cyfanswm o £129.2 miliwn o ddirwyon i 103 o gwmnïau adeiladu y cafwyd eu bod wedi cydgyllwynio â chystadleuwyr yn groes i ddeddfwriaeth ar gystadleuaeth. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus newydd 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr nodi achosion o "gamymddwyn difrifol" sydd wedi codi o fewn y tair blynedd cyn i'r contract hwn gael ei hysbysebu, felly nid oes raid i gwmnïau a enwir yn yr adroddiad hwn ddatgan hyn mwyach. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r arferion hyn yn parhau ac felly, ar gyfer prosiectau adeiladu, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys MA.CON.03, sy'n galluogi cynigwyr i gyflwyno tystiolaeth os byddant yn dymuno, ar y cam dethol.

Er mwyn lleihau'r risg o gyd-dwylo, mae angen i chi ddeall eich marchnad – pa mor gystadleuol ydyw? A oes dulliau cyfathrebu ar waith rhwng cynigwyr a allai arwain at arferion cyd-dwylo? Mae yr un mor bwysig ystyried y materion strwythurol hyn ag y mae i ofyn i gyflenwyr posibl gadarnhau bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau addas ar waith.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer rheolaeth

Ardystio Sicrwydd

Ansawdd

MA.GEN.01 Gofyn am dystiolaeth bod system gan y cyflenwr sydd wedi'i hachredu gan drydydd parti ar gyfer rheoli cysondeb ansawdd y cynnyrch neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Polisi a dull

Sicrhau Ansawdd

MA.GEN.02 Gofyn am dystiolaeth bod system briodol gan y cyflenwr ar gyfer rheoli cysondeb ansawdd y cynnyrch neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Rheoli

consortiwm

MA.GEN.04 Gofyn am dystiolaeth bod system briodol gan y cyflenwr ar gyfer rheoli ei drefniadau consortiwm.

Cwestiwn ychwanegol ar gyfer rheolaeth ar waith

Arferion gwrth-gystadleuol

MA.CON.03 Cadarnhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol gan gynigwyr posibl i atal arferion gwrth-gystadleuol.

E - CYFLE CYFARTAL

Sut y dylwn holi ynghylch cyfle cyfartal?

Mae tri rheswm posibl dros ystyried yr angen i ddelio â chyfle cyfartal wrth ddethol cyflenwyr: yn gyntaf, mae nifer o ddeddfau'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i wneud hynny (gan eich bod yn brynwr yn y sector cyhoeddus); yn ail, byddwch am sicrhau bod polisïau'r prynwr yn cael eu hyrwyddo ym mhob agwedd ar yr ymarfer caffael, ac yn drydydd, byddwch am osgoi cyhoeddusrwydd o ganlyniad i fod yn gysylltiedig â chyflenwyr sydd â hanes gwael o ran cyfle cyfartal.

Mae'r SQuID yn awgrymu dau ddull amgen o weithredu: er cyfleustra, fe'u gelwir yn asesiad *llai manwl*, ac asesiad *gofynion penodol*.

- Mae'r dull *llai manwl* yn seiliedig ar yr egwyddor bod deddfwriaeth effeithiol ar waith yn barod ar gyfer cyfle cyfartal sy'n cael ei goruchwyllo gan wahanol gyrff cyhoeddus gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'n cymryd nad gwaith y prynwr sector cyhoeddus yw gorfodi'r gyfraith, ond ei bod yn ddoeth sicrhau nad yw contractau'n cael eu dyfarnu i sefydliadau sydd wedi torri'r gyfraith heb gymryd camau cywiro.
- Bydd dull yr asesiad *gofynion penodol* yn ddefnyddiol os yw'r prynwr wedi pennu gofynion o ran cyfle cyfartal ar gyfer y prosiect. Mae'r dull hwn yn cynnwys yr un cwestiynau â'r dull *llai manwl* ond mae hefyd yn gofyn i gynigwyr gadarnhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant cydraddoldeb. Efallai y bydd prynwyr hefyd am gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r contract, er enghraifft gofyn am dystiolaeth o brofiad o ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn aml iawn, gellir delio â hyn yn well drwy ddatgan y gofynion yn glir yn y fanyleb a thrafod y mater yn fwy manwl yn y cam tendro.

Roedd fersiynau cynharach o'r cwestiynau SQuID yn cynnwys cwestiynau am bolisïau cyfle cyfartal, a monitro gweithlu'r sefydliad ar sail y nodweddion gwarchodedig. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u dileu, am mai anaml iawn y maent mor uniongyrchol berthnasol i'r contract ac yn aml cânt eu cynnwys er mwyn sicrhau bod cynigwyr yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Fodd bynnag, mae Croniciad 97 o Gyfarwydddeb Caffael Cyhoeddus newydd 2014 yn gwahardd cynigwyr rhag cynnwys meini prawf ac amodau sy'n ymwneud â pholisïau corfforaethol cyffredinol ac ati.

Yn ogystal â bod yn anghyfreithlon, mae gofyn am bolisïau corfforaethol yn peri'r risg o wahaniaethu yn erbyn sefydliadau llai a all fod yn gyflogwyr da ond na allant fforddio rhoi mecanweithiau o'r fath ar waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn well cyflawni'r amcan hwn drwy gydweithio â chyflenwyr llwyddiannus drwy brosesau rheoli contract. Mae hyn hefyd yn gyson â'r canllawiau ar gaffael yn adran Cymru ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/>

Y dull llai manwl

Pwrpas cwestiynau EO.GEN.01 – EO.GEN.02 yw sicrhau nad yw cynigwyr cymwys na'u his-gontractwyr wedi'u cael yn euog o wahaniaethu anghyfreithlon neu, os ydynt, eu bod wedi cymryd camau priodol i sicrhau na fydd gwahaniaethu o'r fath yn digwydd eto. Rydym yn argymhell bod y cwestiynau hyn yn cael eu cynnwys bob tro yn feini prawf ar gyfer cymhwys.

Y dull gofynion penodol

Os ydych wedi pennu unrhyw ofynion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ar gyfer y cynnyrch neu wasanaeth yr ydych yn ei brynu (e.e. os yw'r contract ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol i'r cyhoedd gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig), mae'n debygol y bydd angen i chi drafod y rhain yn ystod cam tendro'r ymarfer caffael.

Yn ogystal â chwestiynau EO.GEN.01 ac EO.GEN.02, mae'n bosibl y byddwch am gynnwys EO.GEN.03, sy'n gofyn a yw staff rheoli sefydliad a staff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau wedi cael hyfforddiant cyfle cyfartal. Os oes angen, gellir cynnwys cwestiynau ychwanegol i ofyn am brofiad a sgiliau perthnasol penodol.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer y dull llai manwl o drafod cyfle cyfartal

Hanes blaenorol o ran cyfle cyfartal	EO.GEN.01 <i>Cadarnhau bod y cynigydd wedi cymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i>
Rhaeadru i is-gontractwyr	EO.GEN.02 <i>Cadarnhau y bydd y cynigydd yn cymryd camau i reoli is-gontractwyr i sicrhau eu bod wedi cymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i>

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer y dull gofynion penodol o drafod cyfle cyfartal

Hanes blaenorol o ran cyfle cyfartal	EO.GEN.01 <i>Cadarnhau bod y cynigydd wedi cymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i>
Rhaeadru i is-gontractwyr	EO.GEN.02 <i>Cadarnhau y bydd y cynigydd yn cymryd camau i reoli is-gontractwyr i sicrhau eu bod wedi cymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.</i>
Hyfforddiant	EO.GEN.03 <i>Cadarnhau bod staff y cynigydd sydd â chyfrifoldeb dros reoli a/neu ddarparu gwasanaethau wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb.</i>

F - CYNALIADWYEDD

Sut y dylwn holi ynghylch cynaliadwyedd?

Mae'r angen am ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gweithgarwch caffael wedi'i hen sefydlu yng Nghymru. Mae nifer o resymau dros yr angen i brynwyr ystyried cynaliadwyedd wrth ddewis cyflenwyr:

- Bydd angen i'r prynwr gydymffurfio bob amser â deddfwriaeth berthnasol yr UE / y DU.
- Mae'n bosibl ei bod yn ofynnol bod y prynwr yn cyrraedd targedau amgylcheddol ac yn cydymffurfio â pholisïau sydd wedi'u gosod ganddo ef ei hun neu gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid i'r prynwr ystyried goblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y contractau y mae'n eu dyfarnu.
- Rhaid i'r prynwr fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar ei ddelwedd gyhoeddus o gael ei gysylltu â chyflenwyr sydd â hanes blaenorol gwael, er enghraifft, o ganlyniad i erlyn am dorri deddfwriaeth ar gynaliadwyedd.

Nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredinol (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Asesiadau Risg Cynaliadwyedd

Wrth feddwl am gynaliadwyedd, rhaid ystyried yn fanwl beth yw natur gofynion y contract, y cyfleoedd a'r risgiau, a'r ffordd fwyaf priodol o ddelio â'r risgiau. Fel arfer, bydd hyn yn arwain at bennu nifer o gamau gweithredu i gyflawni gofynion penodol a fydd yn cael eu cymryd ar wahanol adegau yn y prosiect, yn ystod yr ymarfer caffael ac wrth gyflawni'r contract.

Mae'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn ddull ar gyfer sicrhau caffael cynaliadwy, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n eang yng Nghymru yn barod. Y dull yr ydym yn ei argymhell i ddelio â chynaliadwyedd yw defnyddio'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd wrth gynllunio'r ymarfer caffael: bydd yn eich helpu i adnabod risgiau sy'n gysylltiedig â gofynion penodol a fydd yn cael eu rheoli yn ystod y camau dethol a thendro.

Rhaid bod yn ofalus i beidio â chymysgu rhwng elfennau o gynaliadwyedd sy'n ymwneud â *chymhwysedd technegol* y cyflenwr (a gaiff eu hasesu wrth ddewis cynigwyr) a'r rheini sy'n ymwneud â chyflawni'r contract (a gaiff eu hasesu yn y cam dyfarnu).

Yn achos contractau adeiladu, bydd yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn rhoi cyfarwyddyd penodol ar y materion sydd i'w cynnwys yn System Reoli Amgylcheddol y contractwr. Am fod hyn yn ymwneud â gofynion penodol, mae'n well delio ag ef yn y cam tendro yn hytrach na'r cam dethol. Felly rydym yn argymhell na fydd cwestiynau am y System Reoli Amgylcheddol yn cael eu cynnwys yn y cam dethol.

Achredu gan drydydd parti a safonau

Ar gyfer rhai mathau o gaffael, mae'n bosibl y bydd angen sicrhau bod system reoli amgylcheddol gan gynigwyr sydd wedi'i hardystio gan gorff a achredwyd gan UKAS. Fodd bynnag, ni ddylid cynnwys y gofyniad hwn oni bai ei fod yn berthnasol ac yn bwysig ar gyfer cyflawni'r contract dan sylw.

Mae ISO 14001 yn Safon Ryngwladol sy'n cael ei defnyddio'n eang mewn sawl rhan o'r byd ac, yn Ewrop yn enwedig, yn y diwydiant adeiladu. Mae dewisiadau eraill ar gael, fodd bynnag, gan gynnwys EMAS, BS 8555 ac achrediad y Ddraig Werdd, sydd â gofynion, ar rai lefelau, sy'n uwch na rhai ISO 14001. Er mwyn cydymffurfio ag ISO 14001, mae'n ofynnol bod y busnes:

- Yn datblygu polisi amgylcheddol sy'n egluro bod y busnes wedi ymrwymo i warchod yr amgylchedd a gwella ei berfformiad amgylcheddol.
- Yn sefydlu system reoli amgylcheddol sy'n rhwydwaith o elfennau cydgysylltiedig sy'n cynnwys cyfrifoldebau, awdurdodau, perthnasoedd, swyddogaethau, prosesau, arferion, gweithdrefnau, ac adnoddau.
- Yn nodi'r agweddau ar ei weithgareddau, cynhyrchion a gwasanaethau, yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, sy'n fwyaf arwyddocaol i'r amgylchedd.
- Yn gosod amcanion a thargedau amgylcheddol ar gyfer yr holl swyddogaethau a lefelau perthnasol yn y busnes.
- Yn creu rhaglenni i gyflawni ei bolisi amgylcheddol a chyrraedd ei dargedau ac amcanion amgylcheddol.
- Yn monitro, yn mesur, yn archwilio ac yn adolygu ei system reoli amgylcheddol i bennu camau cywirol ac ataliol ac i wella ei berfformiad amgylcheddol cyffredinol.
- Yn sicrhau bod ei bolisi amgylcheddol yn briodol ac yn weithredol, a bod ei dargedau ac amcanion amgylcheddol yn cael eu cyflawni.

Mae'r dull o weithredu yn y SQuID yn debyg i'r un ar gyfer rheoli ansawdd o dan ISO 9001. Rhaid i chi benderfynu'n gyntaf a oes angen ardystiad at safon ISO 14001 (neu safon gyfatebol) er mwyn cefnogi anghenion yr ymarfer caffael.

Y cyngor presennol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw mai dim ond cyrff sydd wedi'u hachredu gan UKAS (neu gyrff cyfatebol mewn gwledydd eraill) a ddylai ddarparu'r gwasanaeth ardystio (gweler www.ukas.com). Gellir cael gwahanol lefelau o fewn pob cynllun, ac mae dosbarthiadau gwahanol ar gyfer cynlluniau o dan system achredu UKAS (mathau A, B ac C) yn ôl y graddau y mae gweithredu ac archwilio'r system reoli wedi'u gwahanu. Bydd yn rhaid i chi nodi eich gofynion.

Os oes angen, dylid gofyn cwestiwn SU.GEN.03. Os rhoddir ateb cadarnhaol, dylech nodi bod hyn yn ddigon ac, fel arfer, ni fydd angen i chi ofyn i gynigwyr roi disgrifiad manwl o'u prosesau rheoli amgylcheddol hefyd. Nid yw'r holl ardystiadau sydd wedi'u rhestru yn y cwestiwn yn gyfwerth a dylech ystyried eich gofynion eich hun yn fanwl a gweithredu mewn ffordd gymesur. Os byddwch yn fodlon ystyried cyflenwyr sy'n gweithio ar gyfer ardystiad gan drydydd parti, neu sy'n barod i wneud hynny yn ystod cyfnod y contract, bydd angen cynnwys cwestiwn ychwanegol i ofyn am y manylion.

Os na fyddwch yn fodlon derbyn cynigydd sydd heb gael ardystiad gan drydydd parti, rhaid i chi nodi hynny'n glir. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl y rhoddir ateb negyddol i gwestiwn SU.GEN.03, mae hefyd yn bosibl y byddwch am ystyried cynnwys rhai o'r cwestiynau o dan SU.GEN.04, neu bob un ohonynt, er mwyn cael gwybod a yw cynigwyr wedi sefydlu rhai o elfennau system reoli amgylcheddol, er nad oes wedi'i hardystio at safon gydnabyddedig. Mater i'r prynwr wedyn fydd penderfynu a yw ymateb y cynigydd i'r cwestiynau o dan SU.GEN.04 yn ddigon i ddiwallu anghenion yr ymarfer caffael.

Os credwch nad oes angen holi am hyn, gallwch ofyn i gynigwyr gadarnhau'n syml fod eu dull o reoli amgylcheddol yn cynnwys elfennau penodol (h.y. SU.GEN.04a- SU.GEN.04c).

O dan reoliadau contractau cyhoeddus 2015, dylid gofyn i gyflenwyr hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf dewis, a dim ond os byddant yn llwyddiant y bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno tystiolaeth ategol. Mae (SU.GEN.04d) yn galluogi cyflenwyr i gyflwyno copïau o'u gweithdrefnau rheoli amgylcheddol ar gam cynharach os byddant yn dymuno.

Talu cyflenwyr yn brydlon

Mae'r SQuID yn cynnwys cwestiwn ynghylch talu cyflenwyr yn brydlon (SU.GEN.05). Mae'r cwestiwn hwn wedi'i gynnwys mewn ymateb i'r awydd i ddangos bod y sector cyhoeddus wedi ymrwymo i hybu busnesau bach a chanolig drwy'r broses caffael. Mewn sawl ystyr, nid yw'n cyflawni fawr ddim gan na fydd modd cymryd camau gorfodi ar sail yr ateb i'r cwestiwn, oni chaiff hyn ei drafod drwy'r broses tendro a'i gynnwys yn y contract.

Os yw eich ymarfer caffael yn cynnwys gwaith adeiladu ac nad ydych yn bwriadu defnyddio Cyfrif Banc Prosiect, efallai y byddwch am gynnwys SU.CON.04 sy'n nodi'r ymrwymadau talu teg a ddatblygwyd gan Grŵp Llywio Caffael Adeiladu Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hyn yn ymrwymo cynigwyr i dalu eu cyflenwyr a'u his-gontractwyr o fewn 19 diwrnod i'r dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus ac yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr y cyflenwyr dalu eu his-gontractwyr o fewn 23 diwrnod i'r dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus.

Dylech ystyried pa gwestiwn fyddai'n fuddiol, os o gwbl, a'i gynnwys os yw'n briodol.

Gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Rheoli gwastraff

Os yw'r contract yn un am wasanaethau proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r cam dylunio mewn prosiect adeiladu, dylech ystyried cynnwys cwestiwn SU.CON.01 er mwyn sicrhau bod profiad priodol o reoli gwastraff gan y cynigwyr. Os yw'r contract ar gyfer adeiladu, dylech ystyried cynnwys cwestiwn SU.CON.02 yn lle hynny.

BREEAM

Yn achos prosiectau sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofyniad craidd bod cynigwyr yn cyrraedd sgôr 'Rhagorol' BREEAM. Felly, mae'n bosibl y bydd prynwyr am asesu profiad y cynigwyr o gyflawni prosiectau at y safon hon os yw'r prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei adolygu a gall fod yn briodol gofyn am sgôr 'Da'. Ceir rhagor o wybodaeth am achrediad BREEAM ar wefan BREEAM. Ceisiwch gyngor os ydych yn ansicr:

<http://www.breeam.org/>

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer cynaliadwyedd

Erlyn yn y gorffennol neu'r dyfodol agos	SU.GEN.01 Gwirio nad yw'r cynigydd wedi'i erlyn yn llwyddiannus o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.
Rhaeadru i is-gontractwyr	SU.GEN.02 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn cymryd camau i reoli is-gontractwyr i sicrhau nad ydynt wedi'u herlyn neu wedi cael hysbysiad o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.
Achredu rheoli amgylcheddol	SU.GEN.03 Gofyn am dystiolaeth bod system ar gyfer rheoli amgylcheddol gan y cyflenwr sydd wedi'i hachredu gan drydydd parti.
Polisi a dull rheoli amgylcheddol	SU.GEN.04 Gofyn am dystiolaeth bod system briodol gan y cyflenwr ar gyfer rheoli amgylcheddol.
Talu cyflenwyr	SU.GEN.05 Cadarnhau y bydd y cynigydd yn talu cyflenwyr yn brydlon os bydd yn ennill y contract.
Buddion i gymunedau lleol	SU.GEN.06 Gofyn am gadarnhad gan y sefydliad ei fod yn barod i gymryd camau i ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol ychwanegol i'r gymuned y bydd yn gweithio ynddi.

Crynodeb o'r cwestiynau ychwanegol ar gyfer cynaliadwyedd – contractwyr a gwasanaethau proffesiynol

Rheoli gwastraff safleoedd - Gwasanaethau proffesiynol	SU.CON.01 Cadarnhau bod profiad priodol gan y cynigydd o reoli gwastraff safleoedd.
Rheoli gwastraff safleoedd – contractwyr	SU.CON.02 Cadarnhau bod profiad priodol gan y cynigydd o reoli gwastraff safleoedd.
BREEAM	SU.CON.03 Asesu profiad y cynigydd o gyflawni prosiectau at safon 'Da' neu 'Rhagorol' BREEAM.
Talu cyflenwyr yn y maes adeiladu	SU.CON.04 Cadarnhau y bydd cynigwyr yn talu eu his-gontractwyr o fewn 19 diwrnod ac y caiff cyflenwyr ail haen eu talu o fewn 23 diwrnod i'r dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus.

G - IECHYD A DIOGELWCH

Mae dau brif reswm dros yr angen i chi ystyried iechyd a diogelwch wrth ddewis cyflenwyr:

- Mae dyletswydd gofal ar y prynwr at y cyhoedd a'i staff ei hun, a rhaid iddo sicrhau ei fod yn prynu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n ddiogel ac wedi'u gweithgynhyrchu a'u cyflenwi'n ddiogel.
- Rhaid i'r prynwr ystyried ei ddelwedd gyhoeddus a'r goblygiadau posibl o gael ei gysylltu â chyflenwyr sydd â hanes blaenorol gwael o ran iechyd a diogelwch.

Ceir risgiau mwy o lawer o ran iechyd a diogelwch mewn sectorau diwydiant penodol, a dylech ddisgwyl gofyn am fwy o wybodaeth gan gynigwyr yn y marchnadoedd hyn. Ymysg yr enghreifftiau mae adeiladu, gosod, peirianeg sifil, cludiant a logisteg, cynhyrchion mecanyddol, bwyd a gwasanaethau bwyd, a gofal cymdeithasol.

Mae wedi'i dderbyn yn arfer da bod iechyd a diogelwch yn cael ei drin fel mater o lwyddo neu fethu yn y cam dethol ac na ddylid rhoi sgôr am atebion na'u pwysoli. Mae rheoliadau contractau cyhoeddus 2015 yn cynnwys y ffaith y gall cynigwyr hunanardystio, felly mae angen i'r meini prawf ar gyfer derbyn fod yn glir a diamwys. Oherwydd hyn, dylech allu nodi beth fyddwch yn ei ystyried yn ymateb derbyniol. Mae dolen yn y golofn canllawiau yn y SQulD sy'n cysylltu â gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle ceir rhagor o gyngor.

Cofnodion damweiniau

Roedd fersiwn gynharach o'r SQulD a oedd yn ymwneud yn benodol ag adeiladu yn gofyn i gynigwyr gofnodi eu hystadegau am ddamweiniau. Mae'r cwestiwn hwnnw wedi'i hepgor oherwydd y cymhellion gwrthnysig sy'n gysylltiedig â chymharu perfformiad cynigwyr. Gellir cael gwahaniaethau rhwng cynigwyr o ran eu diwydrwydd wrth gofnodi damweiniau, felly mae'n anodd defnyddio'r wybodaeth honno i asesu cymhwysedd yn y cam dethol. Mae'n bosibl y bydd yn well delio â'r maes hwn drwy drefniadau rheoli contract.

Gwahaniaethau rhwng polisïau ac arferion sefydliadau ar sicrhau iechyd a diogelwch yn y cam dethol

Mae cyfleuster mewnol gan rai o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i reoli iechyd a diogelwch yn eu gweithrediadau eu hunain ac ymysg eu cyflenwyr. Nid oes cyfleuster o'r fath gan sefydliadau eraill, neu mae eu capasiti'n annigonol, a byddant yn sicrhau bod cyflenwyr, contractwyr a darparwyr gwasanaethau'n gymwys drwy brosesau achredu gan drydydd parti. Mae hyn yn ddull cyffredin a chydabyddedig, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu (gweler pwynt 4 isod lle ceir canllawiau ar wahân ar achredu iechyd a diogelwch yn y diwydiant adeiladu), ac mae cynlluniau priodol ar gael yn rhwydd o dan y grŵp Cynlluniau Diogelwch ym Maes Caffael (www.ssip.org.uk). Cynllun sy'n cael ei arwain gan y diwydiant yw hwn sy'n caniatáu cydnabyddiaeth gyffredin i gynlluniau cymhwysedd diogelwch – ac mae mwy na 30 ohonynt ar adeg llunio'r ddogfen hon. Fe'i cynlluniwyd yn bennaf ar gyfer y diwydiant adeiladu ond mae rhai o'r darparwyr yn weithgar mewn marchnadoedd eraill.

Os ydych yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr fod yn aelodau o'r SSIP (neu gynllun cyfatebol), rhaid i chi gael gwybod pa mor gyffredin yw aelodaeth ohono ymysg y cyflenwyr a all fod am gyflwyno cynnig am eich contract. Lle y bo'n bosibl, dylech osgoi nodi aelodaeth o un cynllun SSIP penodol, oherwydd gall awdurdodau prynu eraill ofyn am gynlluniau gwahanol a gall cofrestru ag amryw o gynlluniau gwahanol olygu costau sylweddol i gyflenwyr.

Fodd bynnag, nid yw'r holl lefelau aelodaeth yn gyfwerth, a dylech wirio eich gofynion yn fanwl a sicrhau eich bod yn eu cyfleu'n glir i gynigwyr. Mae'r meysydd cymhwysedd diogelwch y mae darparwyr yr SSIP yn delio â hwy yn eithaf cyffredinol, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gynnwys cwestiynau ychwanegol, am weithio ar uchder er enghraifft, sy'n ymwneud yn benodol â gofynion y contract.

DS. Mae rhai sefydliadau wedi cytuno ar weithdrefnau safonol i sicrhau cymhwysedd iechyd a diogelwch yn y cam dethol. Dylech ofyn am gyngor gan adran iechyd a diogelwch eich sefydliad i sicrhau bod y dull y byddwch yn ei ddewis yn gyson â'r gweithdrefnau safonol. Os ydych yn cynnal ymarfer caffael ar y cyd, rhaid sicrhau bod yr holl bartïon yn fodlon ar eich dull o weithredu cyn dechrau.

Rydym yn awgrymu pedwar dull o asesu Iechyd a Diogelwch yn y cam dethol:

Nwyddau, gwasanaethau a gwaith

1. Os yw'r risgiau i iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r ymarfer caffael yn isel, a'ch bod wedi cael caniatâd i wneud hyn, mae bosibl y byddwch am ofyn cwestiynau HS.GEN.01 a HS.GEN.02 yn unig. Mae cwestiwn HS.GEN.01 yn sicrhau, os yw'r cynigydd wedi'i erlyn yn llwyddiannus o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, fod camau cywiro digonol wedi'u cymryd. Dylech gynnwys cwestiwn HS.GEN.02a er mwyn sicrhau, os bydd y cynigydd yn is-gontractio rhan o'r contract, fod prosesau ar gael ganddo i asesu cofnodion iechyd a diogelwch ei is-gontractwyr.
2. Os yw'n arferol bod iechyd a diogelwch yn cael eu hachredu gan drydydd parti yn y farchnad dan sylw, ystyriwch ofyn eu bod yn cael eu hachredu gan aelod o grŵp yr SSIP (HS.GEN.03). Y cyngor gan Lywodraeth y DU yw na ddylech osod rhagamod bod cynigwyr yn talu am gael eu hachredu gan sefydliadau trydydd parti penodol cyn cyflwyno cynnig, felly rydym wedi cynnwys y geiriau "neu grŵp cyfatebol". Mae rhai eithriadau i hyn, fodd bynnag, ar gyfer materion fel diogelwch, ac mae gofynion cyfreithiol am sicrhau achrediaid masnach ar gyfer rhai gweithgareddau, fel gwaith trydan a nwy. Mae'n bosibl y byddwch am gynnwys un o'r cwestiynau ychwanegol HS.GEN.04 i HS.GEN.07, neu bob un ohonynt, ar gyfer y rheini sydd heb eu hachredu gan drydydd parti. Cofiwch ei bod yn bosibl y bydd yr achrediad gan aelod o grŵp yr SSIP yn cynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani yng nghwestiynau HS.GEN.04 i HS.GEN.07. Dylech ond ofyn am wybodaeth ychwanegol os gallwch nodi'n glir beth sy'n ofynnol er mwyn gallugoi cyflenwyr i hunanardystio, ac os nad yw cofrestriad â'r SSIP eisoes yn cwmpasu'r materion hyn.
3. Os oes gennych gyfleuster mewnol i asesu cymhwysedd iechyd a diogelwch, mae'n bosibl y byddwch am gynnwys cwestiynau HS.GEN.04 i HS.GEN.07 a chwestiynau ychwanegol (yn ogystal â HS.GEN.01 a HS.GEN.02) yn hytrach na gofyn am achrediad gan drydydd parti. Unwaith eto, mae nifer o sefydliadau'n ei gwneud yn *ofynnol* eich bod yn gofyn yr holl gwestiynau hyn. Mae mwy o fanylion yn yr adran isod.

Gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

4. Yn ogystal â'r gyfraith gyffredinol ar iechyd a diogelwch, mae'r diwydiant adeiladu'n ddarostyngedig i reoliadau ychwanegol (CDM 2007). Y dull yr ydym yn ei argymhell ar gyfer y diwydiant adeiladu yw ei gwneud yn ofynnol bod systemau rheoli iechyd a diogelwch y cynigwyr (ac is-gontractwyr) yn cael eu hardystio gan drydydd parti. Mae hyn yn ddull cyffredin a chydabyddedig yn y diwydiant adeiladu ac mae cynlluniau priodol ar gael yn rhwydd. Rydym yn argymhell eich bod yn cynnwys cwestiwn HS.GEN.01, ynghyd â chwestiwn HS.GEN.03 ac yn ceisio cyngor gan eich ffynhonnell gymwys o Gyngor Iechyd a Diogelwch ar sut i asesu ymatebion.

Is-gontractwyr Cymwys

Rydym yn argymhell eich bod yn cynnwys cwestiwn HS.GEN.02 i sicrhau bod gan y contractwr ddull digonol o fonitro hanes blaenorol a chymhwysedd ei is-gontractwyr o ran iechyd a diogelwch. Os byddwch yn gofyn cwestiwn HS.GEN.02b, gofawch eich bod yn glir ynghylch beth fydd yn cael ei ystyried yn ateb derbyniol. Mae'n bosibl nad yw holl aelodau grŵp yr SSIP yn delio â'r mater hwn yn ddigon manwl.

Polisi Iechyd a Diogelwch

Roedd fersiynau cynharach o'r SQuID yn cynnwys cwestiynau'n gofyn am gopiâu o Bolisiâu Iechyd a Diogelwch, yn ogystal â rhagor o fanylion, yn cynnwys ar enghreifftiau o asesiadau risg ac ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gan fod Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn galluogi cynigwyr i hunanardystio eu bod yn yn bodloni'r meini prawf, mae'r cwestiynau hyn bellach wedi cael eu dileu a'u disodli gan gwestiynau yn cadarnhau bod gan y cynigydd bolisi iechyd a diogelwch ar waith, a'i fod yn cynnal hyfforddiant. Mae'n ofynnol bod gan bob cwmni sydd â mwy na phum cyflogai bolisi iechyd a diogelwch ar waith, a fydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio ac yn cael ei ddiweddarau'n gyson. Hyd yn oed os oes llai na phum cyflogai gan y cwmni, mae'n bosibl y byddwch am ei gwneud yn ofynnol i'ch cyflenwr gael polisi iechyd a diogelwch os yw hyn yn berthnasol i'r ymarfer caffael. Mae dolen yn y canllawiau i gynigwyr i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle ceir enghreifftiau byr wedi'u cwblhau a thempledi ar gyfer busnesau bach.

Gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

Yn ogystal â'r uchod, dylid ystyried y meini prawf ychwanegol isod.

Diogelwch Cyhoeddus

Bydd y cyhoedd yn agored i effeithiau'r rhan fwyaf o brosiectau adeiladu, os nad pob un ohonynt, a gall hyn roi aelodau o'r cyhoedd mewn perygl o gael niwed. Os ydych yn teimlo nad yw'r mater hwn wedi'i drafod eisoes e.e. drwy broses achredu'r SSIP, yna dylech gynnwys cwestiwn HS.CON.02. Mae'r cwestiwn hwn yn gwirio bod trefniadau priodol ar waith gan gynigwyr, os yw hyn yn berthnasol, i liniaru risgiau achosi niwed i aelodau o'r cyhoedd.

Rheoli Traffig

Os yw'n bosibl y bydd prosiectau adeiladu'n cael effaith negyddol ar lifau traffig a diogelwch yn yr ardaloedd cyfagos, ac nad yw'r mater wedi'i drafod eisoes, rydym yn argymhell eich bod yn cynnwys

cwestiwn HS.CON.03 sy'n asesu trefniadau'r cynigydd ar gyfer rheoli traffig a lleihau ymyrraeth a risgiau i'r cyhoedd a all godi.

Cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r contract

Yn achos prosiectau adeiladu, mae'n debygol y bydd risgiau eraill i iechyd a diogelwch, fel y rheini sy'n ymwneud â gweithio ar uchder, neu o dan ddŵr, lle y bydd profiad a thechnegau rheoli risg penodol yn gymwys. Nid ydym wedi gallu cynnwys pob un o'r materion hyn yn y SQulD a dylech gynnwys y cwestiynau ychwanegol hyn yn ôl yr angen. Gofalwch na fyddwch yn gofyn am wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani'n barod drwy broses achredu'r SSIP, er enghraifft. Peidiwch ag edrych yn fanwl ychwaith ar unrhyw feysydd y bydd angen i chi eu cynnwys yn yr asesiad ar y cam tendro. Dylech sicrhau eich bod yn nodi'n glir beth sy'n ofynnol gennych, gan alluogi cyflenwyr i hunanardystio lle y bo'n bosibl.

Crynodeb o'r cwestiynau ar gyfer iechyd a diogelwch – nwyddau a gwasanaethau cyffredinol

Erlyn yn y gorffennol	HS.GEN.01 Gwirio bod y cynigydd, os cafodd ei erlyn yn llwyddiannus o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, wedi cymryd camau pendant i unioni'r diffyg a oedd wedi arwain at yr erlyniad.
Is-gontractwyr cymwys	HS.GEN.02 Sicrhau bod gweithdrefnau priodol gan gynigwyr i sicrhau bod hanes blaenorol a gweithdrefnau is-gontractwyr o ran iechyd a diogelwch yn cael eu monitro.
Ardystio Iechyd a Diogelwch	HS.GEN.03 Gofyn am fanylion ardystiadau gan achredwyr trydydd parti.
Polisi iechyd a diogelwch	HS.GEN.04 Sicrhau bod y cynigydd wedi mabwysiadu Polisi Iechyd a Diogelwch priodol.
Hyfforddiant iechyd a diogelwch	HS.GEN.05 Sicrhau bod y cynigydd yn darparu hyfforddiant iechyd a Diogelwch priodol.
Person enwebedig	HS.GEN.06 Gofyn am fanylion unigolyn enwebedig y cynigydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch.
COSHH	HS.GEN.07 Gwirio bod y cynigydd wedi mabwysiadu rheolaethau priodol ar gyfer delio â chemegion a sylweddau o dan Reoliadau COSHH.

Crynodeb o gwestiynau ychwanegol ar gyfer iechyd a diogelwch – gwaith (contractwyr a gwasanaethau proffesiynol)

CDM 2007 ACOP	HS.CON.01 Asesu gallu cynigwyr i fodloni gofynion iechyd a diogelwch statudol, lle y cynigir gwybodaeth neu ardystiad cyfatebol, neu lle mae sefydliadau yn gallu ac yn dymuno asesu hyn yn annibynnol.
Diogelwch y cyhoedd	HS.CON.02 Sicrhau na chaiff aelodau o'r cyhoedd eu hamlygu i risg o niwed.
Rheoli Traffig	HS.CON.03 Chwilio am dystiolaeth bod gan gynigwyr fesurau rheoli traffig priodol.

ATODIAD 1

Defnyddio cynhyrchion trydydd parti i gynnal arfarniad ariannol.

Mae nifer o gynhyrchion y gall prynwyr eu hystyried yn ddefnyddiol; mae disgrifiad byr o rai ohonynt isod ynghyd â chanllawiau ar ba rai o gwestiynau'r SQuID i'w cynnwys wrth ddefnyddio'r cynnyrch. Nodwch na all y ddogfen roi disgrifiad llawn o bob cynnyrch ac nid yw'n argymhell nac yn cymeradwyo unrhyw gynhyrchion penodol.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob cynnyrch sydd ar gael ond, yn hytrach, y cynhyrchion sy'n cael eu defnyddio eisoes gan brynwyr yng Nghymru, yn ôl y wybodaeth sydd gan yr awdur. Gellir cynnwys cynhyrchion eraill mewn fersiynau o'r canllawiau hyn yn y dyfodol os bydd prynwyr yng Nghymru'n eu hystyried yn ddefnyddiol.

Dun & Bradstreet - "failure score"

Mae Dun & Bradstreet yn cynnig cynnyrch o'r enw "D&B failure score" sy'n ceisio mesur sefydlogrwydd (ariannol) sefydliad a'r tebygolrwydd ystadegol y bydd yn methu o fewn 12 mis. Gwnaiff hyn drwy ddefnyddio data o nifer o ffynonellau i bennu sgôr canran drwy dechnegau ystadegol. Mae D&B yn honni bod tystiolaeth yn dangos bod cydberthyniad agos â chyfraddau methiant cwmnïau yn y 12 mis ar ôl cyfrifo'r sgôr. Mae'n dadlau bod y cynnyrch hwn yn cynnig mesur llawer mwy cynhwysfawr o fethiant tebygol na'r hyn y gellir ei ddangos drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i brynwyr yn ystod yr ymarfer caffael neu wrth arfer technegau traddodiadol eraill.

Mae'r dull a ddefnyddir i gyfrifo sgôr methiant D&B o dan batent a dim ond disgrifiad bras ohono sydd wedi'i gyhoeddi, felly gellid honni nad yw'n dryloyw. Mae'n bosibl y bydd rhai sefydliadau wedi gwneud contract â D&B ac wedi bodloni eu hunain bod y broses yn dryloyw. Gellir cael sgorau drwy danystrifio ac nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau y gellir darparu sgorau i gynigwyr cyn y cam dethol neu drwy drafodaeth ar ei ôl. Oherwydd hyn, rydym yn argymhell bod y prynwr yn trafod y materion hyn â Dun & Bradstreet cyn defnyddio "D&B failure score" ar gyfer dewis cynigwyr.

Er mwyn defnyddio "D&B failure score", rhaid cael rhif D.U.N.S. y cynigydd fel y gellir cael y sgôr oddi wrth Dun & Bradstreet. Bydd y cwmni'n darparu'r rhif yn rhad ac am ddim os gwneir cais, a bydd ar gael o fewn diwrnod neu ddau fel arfer, os nad yn syth. Mae cwestiwn (FS.GEN.02c) wedi'i gynnwys eisoes yn y SQuID sy'n gofyn am rif D.U.N.S. y cynigydd, ond ei bwrpas yw helpu i adnabod y sefydliad sy'n cynnig. Os ydych yn bwriadu defnyddio "D&B failure score" neu gynhyrchion eraill ar gyfer dewis cynigwyr, rhaid i chi sicrhau'n gyntaf eich bod yn gyfarwydd ag unrhyw gytundebau neu weithdrefnau o fewn eich sefydliad chi. Wedyn bydd yn rhaid i chi egluro yn y canllawiau i gynigwyr eich bod yn bwriadu ei ddefnyddio, gan nodi unrhyw drothwy a fydd yn cael ei osod ar gyfer dewis cynigwyr.

Equifax (a chynhyrchion cyfatebol) – statws credyd

Mae nifer o gwmnïau'n darparu cynhyrchion asesu statws credyd a ddefnyddir gan gyflenwyr neu gwsmeriaid sefydliadau er mwyn pennu'r risg a fydd yn codi wrth wneud contract â nhw neu ddarparu credyd iddynt. Bydd prynwyr yng Nghymru'n defnyddio rhai o'r cynhyrchion hyn er mwyn dewis cynigwyr.

Er mwyn asesu statws credyd cwmni, yr unig beth sydd ei angen fel arfer yw rhif cofrestru'r cwmni neu ei rif D.U.N.S. Mae cwestiynau wedi'u cynnwys eisoes yn y SQuID i ofyn am y manylion hyn ond nid yw'r canllawiau ar gyfer y cwestiynau hyn yn egluro y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i asesu statws credyd at ddibenion dewis cynigwyr. Os ydych yn bwriadu defnyddio sgôr statws credyd, rhaid i chi egluro hyn ymlaen llaw a darparu canllawiau ar gyfer y cwestiynau perthnasol sy'n disgrifio sut y bydd y sgôr statws credyd yn cael ei defnyddio ar gyfer dewis. Os ydych yn disgwyl cael cynigion gan sefydliadau yn y trydydd sector, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu ffordd arall o arfarnu statws ariannol rhag ofn na fydd eich asiantaeth asesu statws credyd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Bydd rhai prynwyr yn pennu sgôr statws credyd sy'n cael ei thybïo'n dderbyniol o dan yr amgylchiadau, ac wedyn yn ymchwilio ymhellach i'r rheini sydd â sgôr is cyn eu diystyru. Os byddwch yn penderfynu gweithredu fel hyn, rhaid i chi nodi hyn yn glir iawn yn y canllawiau i gynigwyr (er mwyn peidio â rhwystro cynigwyr sydd â diddordeb ond sydd â sgôr is).

Constructionline - "notation value"

Mae Constructionline yn darparu rhestr o werthoedd nodiant ("notation values") i gwmnïau sy'n tanysgrifio i'w wasanaeth. Bydd y gwerth nodiant hwn yn cynnwys sefydlogrwydd ariannol yn ogystal â chymhwyster a gallu, a gall prynwyr ei ddefnyddio yn y broses ddethol drwy bennu'r categori (neu gategoriâu) y maent yn ymddiddori ynddo a'r gwerth nodiant y maent yn chwilio amdano yn y categorïau hynny. Os gofynnir, bydd Constructionline yn rhoi rhestr i brynwyr o gontractwyr "rhag-gymwysedig" sydd â'r gwerthoedd nodiant sydd wedi'u pennu gan y prynwr – bydd rhai prynwyr yn defnyddio'r rhestr hon i ddewis cynigwyr ar gyfer caffael o dan drothwyon penodol.

Rhaid i gwmnïau dalu ffi er mwyn cael eu hasesu gan Constructionline a chael gwerth nodiant: oherwydd hyn, yn ôl cyfarwyddyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth gynt, ni ddylai prynwyr ei wneud yn rhagamod bod gan gynigwyr werth nodiant cyn eu dewis. Er hynny, gellid defnyddio gwerth nodiant addas yn lle cwblhau rhai adrannau neu gwestiynau mewn holiadur dethol, fel y bo'n briodol, sy'n gyffredin yng Nghymru.

Os bydd prynwr am wneud defnydd o wasanaeth Constructionline, bydd yn rhaid iddo gynnwys cwestiwn sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect, ac rydym yn argymhell ei fod yn cynnwys cyfarwyddiadau i egluro pa werth(oedd) nodiant a dderbynnir a pha gwestiynau neu adrannau yn yr holiadur dethol y gellir eu gadael heb eu hateb os yw'r cynigydd wedi cael y gwerth(oedd) nodiant a bennwyd. Gan y bydd y gwerth nodiant sy'n ofynnol yn dibynnu ar anghenion yr ymarfer caffael, nid oes cwestiynau safonol yn y SQuID ynghylch gwerthoedd nodiant.

Er bod Constructionline wedi'i fabwysiadu gan lawer – ond nid gan bawb o bell ffordd – ymhlith prynwyr y sector cyhoeddus a chontractwyr y sector preifat yn y sector adeiladu, nid yw cysyniad y gwerth nodiant wedi profi'n berthnasol eto y tu allan i'r byd adeiladu. Yn ogystal â hyn, mae'r dull seiliedig ar werthoedd sydd ganddo o ddelio â chymhwyso yn wahanol iawn i'r dull seiliedig ar risgiau sydd wedi'i fabwysiadu yn y SQuID. Oherwydd hyn, ni ellir argymhell defnyddio'r gwerth nodiant eto heblaw ar gyfer prosiectau adeiladu.